# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 131

RHAGFYR/IONAWR 1986


# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Y FORWYN FAIR A PHLENTYN GYDA'R SEINTIAU HELEN A FFRANSIS
(Un o gardiau lliw yr Amgueddfa Genedlaethol. Pris: 35c.)gwel tud.4

EGLWYS DEWI SANT CAERDYDD

NOS SUL, RHAGFYR 21ain


am 8 o'r gloch

CÂN Y NADOLIG

gyda

Iona Jones (Soprano)
Gareth Rhys-Davies (Bariton)
Gareth Carwyn (Cornet)
Elin Angharad (Telyn)
Phillip Langharne (Organ)
Parti Canolfan yr Urdd

£1.50 (Plant Cynradd 50c)
yn cynnes Coffi a Mins Peis




# LLWYDDIANT
## YNG NGHLWB IFOR BACH!

ENILLWYD CYSTADLEUAETH Ddrama Tafod Elai gan gwmni Clwb Ifor Bach o Gaerdydd drwy actio 'Caffi Sam' gan Rhys Llwyd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar Nos Fercher a Nos Iau y 19eg a'r 20fed o Dachwedd yn Neuadd Dowlais Llanilltud Faerdre. 'Roedd chwech o gwmniau'n cystadlu, a thraddodwyd y feirniadaeth ar Nos Wener gan y beirniad gwadd, Dyfan Roberts. Cafwyd perfformiad y noson honno hefyd gan y cwmni gwadd, Cwmni'r Garreg Galch o ardal Rhydaman. Roedd y dair noswaith yn llwyddiannus iawn, gyda nifer o bobl wedi dod ynghyd i weld amrywiaeth o berfformiadau. Mynegodd Dyfan Roberts ei werthfawrogiad o'r ymdrech a wnaed gan yr holl gwmniau. Dyfarnodd y wobr i Gwmni Clwb Ifor Bach am mai nhw, yn ei dyb ef, oedd wedi adlewyrchu orau ysbryd yr wyl yn y modd y cyflwynasant eu perfformiad. Canmolodd yn arbennig ddawn Anthony Evans, a ddisgrifiwyd ganddo fel 'comediwr naturiol.' Ysgrifennwyd y ddrama 'Caffi Sam' yn wreiddiol ar gyfer ei pherfformio gan gwmni lleol yn ardal Y Bala. Oherwydd cysylltiadau lleol y ddrama ag ardal Y Bala, bu rhaid i'r cast weithio'n galed i'w haddasu ar gyfer cynulleidfa yn Nwyrain Morgannwg.
Aeth y wobr am brif actor yr wyl i Ifan Wyn Williams am ei berfformiad fel cymeriad canolog drama Wil Sam 'Y Fainc'.
Drama arall a gafodd ganmoliaeth fawr gan y beirniad oedd 'Y Dialydd' gan Gwmni Clwb y Bont, Pontypridd, a bydd cyfle i weld y ddrama honno ynghyd â 'Caffi Sam' ar Nos Fercher Rhagfyr 10fed yng Nghlwb Ifor Bach a Nos Iau'r 9fed yng Nghlwb y Bont. Noson o hwyl i bawb.

---

AR Y NOS Wener cyntaf yn Nhachwedd, cynhaliodd Cylch Llyfryddol Caerdydd ei gyfarfod cyntaf yn un o ystafelloedd y Brifysgol. Cafwyd darlith wir ddiddorol gan ein hysgrifennydd E. Wyn James ar "Calfin a Chymreigyddion y Fenni". Yr Athro Ceri Lewis oedd yn y gadair a diolchwyd i'r siaradwyr gan J. Gwynfor Jones. Edrychir ymlaen at y cyfarfod nesaf ar ar Ragfyr y pumed pryd y ceir anerchiad gan Brian Ll. James yn Llyfrgell Salisbury. Cawn gyfle hefyd i gael cip ar rai o drysorau'r llyfrgell ddiddorol hon.

# LLYTHYRAU

10a Salisbury Ave.,
PENARTH.

Annwyl Olygydd,

'Tydwi ddim yn hoff o gecru, ac i ddweud y gwir dyma'r tro cyntaf i mi sgwennu at unrhyw bapur, ond allwn i ddim llai na theimlo'n reit biwys wrth ddarllen erthygl y 'Mari 'na' yn rhifyn mis Hydref o'r Dinesydd. Fel un sy'n derbyn 'Y Goriad' a'r 'Dinesydd', synnais at y gymhariaeth a wnaed rhwng y ddau bapur bro.

Mi fyddai ar binnau bob mis yn disgwyl am fy nogn o'r hanesion diweddaraf o Fangor, a'r rhestr faith honno o briodi, geni a marw. Y gamp yw gwybod cymaint o straeon â mam ei hunan ar gyfer ein sgwrs ffôn wythnosol!

Hyd y gwela' i, nid yw arlwy Y Dinesydd yn llawer gwahanol. Hanfod y papurau bro yw plwyfoldeb ac felly anheg yw cymharu safon o rhyw safbwynt cyffredinol allanol.

Ew, mae'r 'Bangor lad' yma wedi ei chynhyrfu i gyd - heb sôn am y ffaith i'r 'Mari 'na' gyfeirio at Fangor fel cylch y Felinheli!

Yn y diwedd, pawb at ei fro - âc fe gaiff 'Y Goriad' a'r 'Dinesydd' ymladd am fy sylw y mis nesa eto.

<u>Mari Arall</u>

11 Stryd Lochaber,
Y Rhath,
Caerdydd.
Ffôn: 488399

Annwyl Olygydd,

Fel y gŵyr pob un o ddarllenwyr Y Dinesydd mae Ffred Ffransis yng ngharchar ers Medi'r 3ydd am ei ran yn ymgyrch Cymdeithas yr Iaith i sicrhau Corff Datblygu Addysg Gymraeg. Fe'i dedfrydwyd i naw mis yn y carchar ac yn ddiweddar fe'i symudwyd o Garchar Walton yn Lerpwl i Garchar Wymott ger Preston sydd 30 milltir ymhellach o'i gartref. Gwrthododd y Swyddfa Gartref gais gan Ffred i gael ei symud i Garchar Abertawe a hynny ar waetha'r ffaith fod ei wraig Meinir yn disgwyl eu pumed plentyn ar Chwefror 1af. Fe fydd yn amhosibl iddi deithio mor bell i ymweld â Ffred bellach.

Fe fydd Ffred yn y carchar dros y Dolig ac mae'n siwr fod llawer ohonom, ddarllenwyr Y Dinesydd, wedi bwriadu danfon cerdyn ato. Ond anfonodd Ffred lythyr o'r carchar yn ddiweddar yn gofyn i bawb BEIDIO ag anfon cardiau Nadolig ato. Dywedodd y byddai'n well ganddo petai pawb yn anfon yr arian a fyddent wedi ei wario ar gerdyn a stamp i'w rannu rhwng Cymorth Cristnogol ag Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith.

Fe garwn i ar ei ran eich annog i anfon eich rhoddion i'r cyfeiriad uchod, gan nodi'n glir ei fod ar gyfer CRONFA NADOLIG FFRED.

Os oes rhai ohonoch yn garedigion yr iaith, ond efallai yn ansicr ynglyn â dulliau Cymdeithas yr Iaith, yna byddai'n dda petaech yn prynu copi o lyfryn Ffred, Y GRYM DIDRAIS. Mae'r llyfryn ar gael o'r cyfeiriad uchod am bunt a stamp. Mae'n rhoi golwg i ni ar yr hyn sydd y tu ôl i ddyfalbarhad Ffred, a'r ffydd sy'n ennyn ei ymroddiad i achosion megis Cymorth Cristnogol.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cyfraniadau i GRONFA NADOLIG FFRED ac ar ei ran ga'i ddymuno Nadolig Llawn iawn i chi bob un.

ARFON JONES.

## Gŵyl y Geni

Llongyfarchiadau i Paul a Marian Donovan ar enedigaeth mab, Aled Owain, yn Ysbyty Dewi Sant ar Hydref 26ain. Brawd bach i Leah Siwan.

Llongyfarchiadau hefyd i Wyn a Heulwen Jones ar enedigaeth Ieuan Peredur.

Llongyfarchiadau cynnes i Selwyn a Beryl Williams, Heathway, Y Mynydd Bychan, ar enedigaeth merch fach, Nerys Maelor. Y mae ei brawd mawr, Sion Gwilym, wedi dotio arni.

Deallwn fod Sarah Hawys, babi newydd Aled a Mandy Roberts, wedi cael croeso mawr gan ei chwaer fawr, Alys Haf. Estynwn ein croeso ninnau iddi gan ddymuno dyddiau dedwydd a llewyrch i'r teulu bach.

## NEWYDDION

Llongyfarchiadau i Enir Wyn Thomas o'r Waun ar ei llwyddiant yn ei arholiadau cerdd. Derbyniodd Anrhydedd yn ei Gradd 8 ar chwarae'r piano a llwyddodd yn ei Arholiad Gradd 7 ar y delyn. Pob diolch i Margaret Thomas (Telynores Llwchwr) a Mrs. Diana Lock.

## DIOLCH

Diolch i'r canlynol am gyfrannu i goffrau'r Dinesydd. Mawr ein diolch:

Gaynor Maddocks £5; Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd £10; Dr. Meredydd Evans £10; Iwan Jones £10; Glyn Evans £1; Glyn Lewis £5

<u>Diolch</u>

Diolch a diolch eto i Gymdeithas Canna Y Dysgwyr am eu rhodd hael dros ben i'r Dinesydd. Ar wahan i'r cyfraniad ariannol (pwysig iawn!!) mae'r gefnogaeth yn amhrisiadwy.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816.

(Ymddiheurwn i Gymdeithas Minny Street ac i Gôr Philharmonig Caerdydd am gamgymeriadau yn ein rhifyn diwethaf. Mae'r manylion cywir yn y rhifyn hwn).

Rhagfyr

| | |
|---|---|
| 5 | Cymrodorion Caerdydd, Festri Minny Street. Darlith am Paul Robeson gan Y Parchedig T.J. Davies. Cadeirydd : Rebecca Powell |
| 6 | 7.30 p.m. yng Nghapel Salem, Canton 'Ser yn Salem'. Cyngerdd i godi arian tuag at y Trydydd Byd. |
| 8 | 'Hen Garolau Plygain' gyda Roy Saer yn Festri Capel Minny Street am 7.30 p.m. |
| 10 | Cymdeithas Minny Street. Noson yng ngofal aelodau Eglwys Bethel, Penarth. |
| 10 | Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. Dathlu'r Nadolig 8 p.m. |
| 13 | Côr Philharmonig Caerdydd. Cyngerdd Nadolig yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett am 7.30. MESSE SOLENNELLE (Rossini). Tocynnau £3.50 (Tel. 496444) |
| 17 | Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Crofts St. am 7.30. Sesiwn ar gyfer dysgwyr am 6.45 gan gynnwys help gyda geirfa'r oedfa. |
| 21 | Eglwys Dewi Sant am 8 o'r gloch. 'Cân y Nadolig'. Yr elw at Ganolfan yr Urdd. |
| 21 | Gwasanaethau'r Nadolig yng Nghapel Salem, Canton : Oedfa'r plant yn y bore am 10.30 ac yna am 6.00 Gwasanaeth dan ofal aelodau'r 'Gadwyn' sef Cymdeithas y Capel. |
| Bore'r Nadolig | Capel Salem Canton. Gwasanaeth Y Plygain am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. |

Ionawr

| | |
|---|---|
| 14 | Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 o'r gloch. Noson gan yr aelodau. |
| 28 | Cymdeithas Minny Street am 7.15 p.m. Cyngerdd gan ddisgyblion Glantaf. |
| 28 | Cylch Cinio Cymraeg Y Barri a'r Fro. Siaradwr: Euryn Ogwen. |

# Cân i Gymru

Gwerin Tai'r Felin, Gwlad a Gorllewin(!), Roc a rol nwyfus neu'r Felan fwythus...Beth bynnag fo'ch 'forte' mae trefnwyr y gystadleuaeth 'Cân i Gymru' yn galw arnoch chi gyfansoddwyr i anfon eich cynhyrchion iddynt rhag blaen.

Cwmni annibynnol, Teledu'r Tir Glas, sydd yn trefnu'r gystadleuaeth eleni a'r dyddiad cau yw Ionawr 20, felly os am roi cynnig ar ennill y wobr gyntaf o £500 a thlws peidiwch ag ymdroi, anfonwch am ffurflen gystadlu ganddynt yn awr.

Gellwch anfon eich cân i'r gystadleuaeth naill ai ar ffurf caset neu lawysgrif neu'r ddau ac mae croeso i chi anfon mwy nag un gân os dymunwch.

O blith y cynhyrchion a dderbynir bydd panel o feirniaid yn dewis wyth cân i'w perfformio ar y rhaglen deledu 'Cân i Gymru' a ddarlledir nos Sul, Mawrth 15, 1987. Ac mae Tir Glas hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ryddhau record a chaset o'r wyth cân terfynol hyn. Bydd y gân fuddugol yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Celtavision yng Nghil-Airne yn Iwerddon ym mis Mai.


Yn wahanol i'r gorffennol bydd canwr/cantores neu grŵp gwahanol yn perfformio pob un o'r wyth cân a gall y cyfansoddwyr awgrymu enw perfformiwr/wyr i ddehongli eu cân Os yw'r cyfansoddwr yn digwydd bod yn ganwr hefyd mae croeso iddo/iddi awgrymu ei (h)enw ei hun.

Bydd y drefn o feirniadu'r gystadleuaeth yn wahanol eleni hefyd gyda phump panel yn cynnwys cerddorion a chantorion yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd o bob oed yn beirniadu ar y noson. Meddai Huw Jones, Cynhyrchydd y rhaglen. 'Rydym yn awyddus i gael cynrychiolaeth mor eang ag sy'n bosib' o ran chwaeth gerddorol. Does dim cyfyngiad o gwbl ar ba fath o gân y gellir ei chyflwyno'.

Felly, gyfansoddwyr Cymru, os oes cân yn corddi yn y bol, alaw yn awchio am weld golau dydd, anfonwch yn syth bin am ffurflen gystadlu at Teledu'r Tir Glas, Maesincla, Caernarfon. Ffôn: (0286) 5766. A hwyl fawr ar y cyfansoddi.




Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Fe fydd dinasyddion Caerdydd yn cyd-lawenhau l ni yng Nghasnewydd o wybod mai Alun Guy a ddewiswyd yn Gor-feistr ar gyfer Eisteddfod 1988. Eisoes mae'r Côr wedi dechrau ymarfer ar gyfer Cyngerdd y Cyhoeddi ar Fehefin 27, 1987. Yr Offeren yn D Leiaf (Haydn) yw maes yr ymarfer - y 'Nelson Mass' i'r wybodusion. Yn ei anerchiad agoriadol i'r Côr dywedodd Alun iddo werthfawrogi cefnogaeth cantorion Casnewydd ymunodd a Chor Eisteddfod Caerdydd yn 1978 ac roedd ambell i wyneb cyfarwydd yn rhengoedd Cor Casnewydd yn brawf fod cantorion Caerdydd yn daer i dalu'r ddyled.

Canolfan Hamdden Ysgol Gyfun Llysweri yw cartref y Côr, ac ar hyn o bryd, ar nos Lun y cynhelir yr ymarferiadau. Os oes gan ddarllenwyr Y Dinesydd ddiddordeb mewn uno yn y gân, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Côr - Mrs. Joyce Hopkins, 1 Traston Avenue, Casnewydd. Rhif ffôn Joyce yw Casnewydd (0633) 277867 yn ystod dydd gwaith a 273789 gyda'r nos. Fe fydd croeso cynnes yn eich aros a lolfa braf i ymlacio wedi'r ymarfer cyn troi am adref.

Rhag ofn i chi feddwl fod popeth yn fêl i gyd ac nad oes ambell i broblem yn codi gyda threfniadau Eisteddfod 1988, man a man cyfaddef mai'r pen tost mwyaf hyd yn hyn oedd ceisio lleoli Swyddfa'r Eisteddfod yn y dre. Roeddym yn dra ffodus fod cyfeillion Abergwaun wedi caniatau i staff Swyddfa'r De barhau i nythu yn Nyfed. Ond bu'r teithio cyson o Abergwaun i Gasnewydd ac yn ôl yn draul ar egni, amser, amynedd a chyllid. Mae'n wyrth fod Idris Evans, Neville Evans ac eraill o'r staff wedi llwyddo i wasanaethu pwyllgorau Casnewydd yn ddiffael.

Bellach mae'r teithio hyd oriau mân y bore drosodd a staff y De nawr yn glyd mewn swyddfeydd o safon uchel yng nghanol Casnewydd - un o'r swyddfeydd prin sydd â maes parcio eang ar gyfer staff ac ymwelwyr. Y cyfeiriad yw:

Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Kingsway,
Casnewydd.
NP9 1EX

Nid yn unig y gellir parcio ceir, ond mae angorfa i gychod wrth law hefyd! Yr unig rhai sy'n edifar am y symud yw perchnogion lloches fwyta Pont Abraham.

Nadolig Llawen i bawb. Os oes rhywbeth yn weddill o gyllideb gwario'r Wyl, fe fydd cyfraniad i goffrau Eisteddfod Casnewydd yn dderbyniol iawn.

Gwynn Tudno.



# BWTH RUTH



Helo a pa hwyl sydd - sut ydach chi arni a ninnau'n prysur ddynesu at ddathlu Gŵyl y Geni unwaith eto? Mae'r rhestrau cardiau ag anrhegion sy'n gweld golau dydd o flwyddyn i flwyddyn wedi dod i'r fei, a braf nodi fod 'na ambell fabi newydd a'i enw i'w ychwanegu at y rhestr. Yn anorfod mae sawl enw arall yn gorfod cael ei ddileu - ond byth ei anghofio.

Mi rydwi wedi penderfynu eleni na fydd y geiriau "rhuthr" na "panic" yn cael bod yn rhan o'm geirfa rhwng rwan a'r Wyl - ag mi fydd y rhan fwyaf o'r anrhegion o'r stabal yma yn rhai sy'n deilliaw o lafur cariad ag oriau difyr yn y gegin.

Petaem ni'n byw yn ardal Llandysul neu Gastell Newydd Emlyn mi fyddem ni ferched yn cael bod yn rhan o'r hwyl a'r sbri sy'n digwydd ar ffermydd yr ardal honno. Mi wn i am griw o ferched sy'n mynd ati'r dyddiau cyn Nadolig i "bluo" neu "blyfio" fel buasen nhw'n ddweud, ac wedi'r torchi llewys a'r chwysu a'r chwerthin, braf ydi mynd ati i drefnu ble bydd y cinio plyfio a pha bryd.


Oes 'na wasanaethau Plygain heb gamerau teledu yn agos iddyn nhw yn ardal Dinas Mawddwy erbyn hyn dudwch? Faint o deuluoedd Gwynedd sy'n gwneud cyflath noson cyn Dolig?

Mae ganddon ni i gyd ein "cof plentyn" am drefn pethau adre a chithau erbyn hyn yn siwr o fod wedi sefydlu traddodiadau modern i'ch teulu eich hunain.

Mi fyddwn i yn arfer edrych ymlaen yn arw at noson o garolau gan Gôr Polyphonic Caerdydd yn Eglwys Sant Ioan - yng nghanol y Ddinas, dyna i mi fyddai nodi fod y Nadolig ar ein gwartha, a braf oedd gweld siopwyr lluddedig a trwm lwythog a'u teuluoedd yn picio i mewn i'r Eglwys hardd i fwynhau clasuron cerddorol y Nadolig. Erbyn hyn parti yr N.F.U. sy'n gorfod cyfleu fod y Nadolig yn nesau.

Wel, thâl hi ddim fel hyn - gwell fyddai mynd ati i sgwennu'r cardia 'ma - os cofiai lle rhois i nhw gan mod i wedi eu prynu yn ôl ym mis Awst yn y Steddfod. Dwi'n cofio un flwyddyn fod mor drefnus a phrynu rhai cardiau Nadolig yn sêls mis Ionawr - a methu'n lân a chofio lle rhois i nhw ym mis Rhagfyr.

Gobeithio cewch chi a'ch teuluoedd Nadolig wrth eich bodd - heb "banic" na "rhuthr". Hwyl a Nadolig Llawn iawn.



# Llun y 'Dolig

Byddwn i gyd yn disgwyl a gobeithio clywed y drws llythyrau yn clician yn aml y Nadolig yma eto, wrth i gardiau'r Wyl ddod â'u negesau unwaith eto. Wedi darllen y cyfarchion tu mewn i'r cerdyn, tybed a'i cip olwg a roddwn yn unig i'r llun neu'r dyluniad sydd arno? Yna brysio i'w gosod i olwg pawb, ar ddodrefn neu eu trefnu ar wal neu ddrws. Cardiau crefyddol, cardiau seciwlar, cardiau efallai a fawr o ddim i'w wneud a Gwyl y Geni o gwbl. Rhai a llun o'r Geni gan un o'r Hen Feistri, un arall o westy a choets a cheffylau tu allan iddo, a rhai digon gwirion fel cath a het Sion Corn am ei phen. Eraill er budd achosion da, a rhai er budd neb ond masnachwyr. Mae'r amrywiaeth yn syndod.

O gofio mae pwrpas yr Wyl i'w dathlu geni'r Iesu, onid da rhoi golwg fwy nag unwaith yn enwedig ar y rhai crefyddol sy'n dwyn atgynhyrchiad o waith y Meistri Mawr. O ble daeth y syniadau am oleuni nefol yn y stabal, yr ychen, yr asyn, y sarff, y llewod a'r tri gŵr doeth er enghraifft? Prin bod yna ddigon o wybodaeth o'r Testament Newydd i fod yn sail i gymwynas nifer fawr o beintiadau'r Geni.

Dim ond dwy o'r bedair Efengyl sy'n adrodd stori'r Geni, a hynny'n wahanol iawn i'w gilydd. Nid yw Mathew yn sôn am fugeiliaid na phreseb fel y mae Luc yn ei wneud, ac nid yw Luc yn sôn am y doethion fel y mae Mathew yn gwneud. Dywed Mathew fod y doethion wedi mynd "i'r tŷ" i weld y baban Iesu, tra y dywed Luc mai mewn preseb y dodwyd yr Iesu "am nad oedd iddynt le yn y llety".

Efallai mai chwilio am ateb o darddiadau eraill y dylem, a chael fod llawer wedi ei ychwanegu at y stori drwy hen chwedlau, gwir neu gau sydd wedi treiddio'i lawr mewn llên ac ar lafar. Y mae peth o'r ateb i'w gael yn y Gau Efengylau, efyngylau apocryffaol sy'n debyg eu hoedran ond heb eu cynnwys ynghyd â'r pedair arall yn y Beibl heddiw.

Fel y tyfodd yr Eglwys Gristnogol gosodwyd yn raddol yn fwy pendant beth i'w gredu a beth i'w wrthod. Yr un modd, yn y broses o ddatblygu y Beibl i'r hyn y gwyddom ni amdano heddiw, derbyniwyd rhai llawysgrifau a gwrthod eraill. Gwrthodwyd llyfrau apocryffaol, y gau efengylau. Ymhlith y rhain y mae gau Efengylau Tomos, Mathew ac Ioan. Y mae sail i gredu fod gau Efengyl Tomos, sydd a llawer o storiau am blentyndod yr Iesu ynddo, ar gael mewn ffurf llawysgrif erbyn yr Ail Ganrif, ac yn gyfoes a'r mwyafrif o'r llawysgrifau y mae'r Testament Newydd yn seiliedig arnynt.

Yn y rhain ceir peth o'r ateb i'r cwestiwn o ble daeth y syniadau a welwn mewn lluniau clasurol o'r Geni sydd yn amlwg heb ddod o Efengylau Mathew a Luc. Hanesion am yr ychen a'r asyn, yr ogof, yr angylion a phalmwydd, caeau gwenith gwyrthiol, anifeiliaid gwyllt yn cael eu dofi, ac eilunod yn cael eu dymchwel.

Crewyd lluniau yn gynnar iawn er mwyn addysgu'r anllythrennog a thyfu o hynny i fod yn gelfyddyd i foddhau gofynion pob math o noddwyr o'r eglwysi ac esgobion i fasnachwyr cyfoethog. Nid oeddynt o anghenraid yn ateb i alwad am wrthrych defosiynol, ac nid ydynt hynny i ni'r Cymry anghydffurfiol chwaith.

Dwy enghraifft uniongyrchol o'r geni gwyrthiol gan artistiaid yw Y Geni gan Tintoretto, 1518-1594 (Scuola di S. Rocco, Fenis). Mae'r stabal ar ddwy lefel, y teulu sanctaidd ar yr uchaf, a'r bugeiliaid ar yr isaf yn edrych i fyny mewn rhyfeddod ar y fam a'r plentyn. Yno y mae y fuwch yn y beudy, a phaen ac iar yn pecian yn y gwair. Yr ail enghraifft yw Y Geni gan Botticelli, 1445-1510 (Oriel Cenedlaethol Llundain). Yn hwn mae'r côr nefolaidd yn hofran uwchben stabal to gwellt, ychen, palmwydd, doethion, bugeiliaid, ffigyrau'n dawnsio - y cyfan yn moliannu mewn lliwiau coch, glas, gwyrdd ac aur coeth.

Er cymaint o luniau o'r math yma sydd ar gael, y mae llawer mwy efallai yn dangos nid y man geni ond yn hytrach y Forwyn a'r Plentyn, naill ar eu pennau eu hunain, neu â chysylltiadau eraill fel seintiau, enwogion neu hyd yn oed ffrwythau arbennig yn y darlun. Yn Oriel Bruges y mae Mair y Forwyn Canon Van der Paele (1436) gan Jan Van Eyck (1385?-1441) lle mae'r Forwyn a'r Iesu yn eistedd ar orseddfainc addurniadol iawn a'r hen Ganon yn cael ei gyflwyno iddynt gan Sant Sior. Yn yr Amgueddfa yn Rouen mae'r Forwyn a Phlentyn gyda Seintiau Benywol (1509) gan Gerard David, m. 1523, ac yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru y mae'r Forwyn a'r Plentyn a Phomegranad, gan ddilynwr Botticelli.

Ym mis Ebrill diwethaf y prynodd yr Amgueddfa Genedlaethol ddarlun Y Forwyn Fair a Phlentyn gyda'r Seintiau Helen a Ffransis gan Amico Aspertini (1504-1552). Dangosir y Santes Helen a enwogwyd am ei darganfyddiad a'i pharch o'r Wir Groes, a Sant Ffransis am iddo yn 1224 dderbyn archollnod yr hoelion ar ei ddwylo a'i draed wedi cyfnod o weddio ar Fynydd Le Verna. O flaen Mair a'r Iesu y mae grisal yn cynrychioli Moses yn derbyn y tabledi; Moses a'r llo aur, a'r eilunod yn syrthio'i lawr ar ddyfodiad y Crist. Yn y cefndir y mae tirlun a ffigyrau yn cynrychioli'r ffoi i'r Aifft. Y mae Sant Helen yn cario croes, a Sant Ffransis yn dangos ôl yr hoelion yn ei law chwith.

Nadolig - Gwyl y Geni, ac amser i lawenhau yn nyfodiad y Crist i'r byd, ac amser i ddiolch am mai Gwaredwr ydoedd. Wele cawsom y Meseia. Brysiwch i drefnu'r cardiau yn daclus, a mwynhewch yr Wyl yn eu cwmni. Nadolig Llawen.

Seiriol Davies.


WALES S4C CYMRU
Sianel Pedwar Cymru

**SWYDDOG COSTAU RHAGLENNI**

Os oes gennych ddawn i drafod ffigurau ac os hoffech weithio mewn teledu, mae'n bosib y gall S4C gynnig gyrfa ddiddorol i chi.

Rydym yn chwilio am berson ifanc, sy'n medru trin ffigurau'n dda, i arbenigo yn y gwaith o reoli cyllid a gweinyddiaeth rhaglenni teledu a gomisiynir gan Gynhyrchwyr Annibynnol.

Does dim raid wrth brofiad ym myd teledu. Efallai eich bod ar hyn o bryd yn gweithio mewn banc, yn dilyn gyrfa gyda chyfrifon neu hyd yn oed ym maes gweinyddiaeth gyffredinol. Ar y llaw arall, efallai mai athro ysgol ydych, neu rhywun sydd newydd raddio. Cyn belled â bod gennych ben da am ffigurau, hoffem glywed gennych.

Lleolir y swydd yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd, ond byddai disgwyl i chi ymweld â swyddfeydd Cynhyrchwyr mewn rhannau eraill o Gymru o dro i dro.

Rhaid wrth gefndir addysgol da, a rhaid hefyd wrth drwydded yrru. Ystyrir medru siarad Cymraeg yn fantais ychwanegol.

Cyflog: £7,767 — £9,529

Ffurflenni cais gan:

**Mrs Mair Owen**
**Swyddog Personel**
**S4C**
**Clos Sophia**
**CAERDYDD**
**CF1 9XY**
**Ffôn: (0222) 43421**

Dyddiad cau: Rhagfyr 15, 1986



celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.

# Anrheg Nadolig i Gogydd y Teulu

Gwyr pob gwraig beth sydd ynghlwm yng nghoginio ar gyfer y Nadolig, golchi'r ffrwyth, seimio'r tin, cymysgu'r pwdin, stwffio'r ffowlyn, paratoi'r llysiau a chwysu uwchben ffwrn boeth. Tra bod pawb arall yn tynnu craceri ac yn yfed port, mae hon wrthi yn y marzipan a'r siwgr yn harddu'r gacen fawr.

Ac yna, ar Wyl San Steffan, a hithau yn edrych ymlaen at ymlacio, gan wybod bod pwys neu ddau o dwrci oer yn yr oergell, a bod modd ffrio'r tato oer mewn chwinciad, mae gweddill y teulu yn penderfynu eu bod wedi cael hen ddigon o dwrci a llysiau wedi'u hail gynhesu. Sbosib nad oes tamaid bach arall, annisgwyl ar gael, cariad?

Dim ond ysbryd y Nadolig sy'n atal hon rhag ffrwydro a gwneud yn glir i bawb taw'r unig beth annisgwyl sy ar y gweill yw Nadolig heb Mam, Nadolig lle mae'r mynydd o ddillad brwnt heb ei olchi, y gwelyau heb eu gosod, a tinaid o baked beans oer yn aros i bawb!

Mae modd osgoi'r olygfa gyffredin hon, a llenwi'r dyddiau digyfeiriad hynny rhwng Nadolig a'r flwyddyn newydd ag ychydig o bethau mwy diddorol na'i gilydd. Llenwch y pantri a'r nwydd-au elfennol hyn ac wedyn gwenwch yn braf pan fydd y teulu'n holi o ble daeth y prydiau gwreiddiol, dyfeisgar hyn.

Mae'n siwr fod nifer go dda o gynhwysion y rysaitiau hyn yn y pantri yn barod, ac os nad ydynt mae'n siwr y byddant ar silffoedd siop Bowen a Davies yn Pontcanna (231 Cathedral Rd). Mae nifer o'r rysaitiau yn defnyddio gweddillion y Nadolig, ac eraill yn gwbl wahanol. Mae'r pwyslais ar dorri amser paratoi a choginio i'r lleiaf posib, gan fydd y cogydd wedi hen 'laru ar goginio tan y flwyddyn newydd.

<u>Mousse 'Drannoeth y Nadolig'</u>

Cynnwys:
6 owns o Gaws Hufen
1 tun o consomme cig eidion
1 darn arlleg wedi ei falu
1 pinsiad o bowdr cyrri
Lemwn a phersli

<u>Dull:</u>
Cymysgu'r cyfan, heblaw am y lemwn a'r persli mewn hylifydd ac yna ei dywallt i mannekins unigol a'u rhoi yn y rhewgell i galedu. Addurn o lemwn a phersli a darn o dost poeth a dyna chi damaid blasus.

<u>Tapenade</u> - yn lle pate

Cynnwys:
5 owns olewydd duon heb eu cerrig ac wedi eu torri'n fân
8 darn o anchovy
2 lwy fwrdd capers
1 llwy fwrdd o sudd lemwn
½ llwy de o Fwstard Dijon
2 llwy fwrdd o cognac
6 llwy fwrdd o oel olewydd

Dull:
Cymysgu'r cyfan gyda digon o oel i wneud saws tew ac yna ei oerni'n dda
Blasus mewn cwpannau bychain ar fisgedi, fel stwffin i wyau wedi eu berwi'n galed, neu fel saws gyda llysiau amrwd.

<u>Cawl Pysgod</u>

Cynnwys:
1 tun o bysgod Tuna
1 tun o Gorn Melys (Sweet-corn)
4 owns o fenyn
4 owns o flawd plaen
2 llwy de o bowdr cyrri
1 peint o laeth
1 peint o stoc cyw iar (neu dwrci)
Pupur a halen

<u>Dull</u>
Torri'r pysgod yn fân. Toddi'r menyn a chymysgu'r powdr cyrri a'r blawd ynddo. Coginio'n araf iawn am 5 munud gan ychwanegu'r llaeth a'r stoc a dod a'r cyfan i'r berw (rhaid ei droi'n ofalus) Ychwanegu'r pysgod a'r corn ac ail dwymo'r cawl. Gellid ei deneuo os bydd angen gyda mwy o laeth neu stoc.

<u>Pasta</u> (Tagliatelle Verdi gyda ham neu eog)

<u>Cynnwys:</u>
2 becyn o Tagliatelle Verdi ffres
6 owns o ham neu eog mwg
10 owns o hufen sengl
Pupur du a phersli

Dull:
Sleisio'r pysgod neu'r ham a'u gadael i sefyll yn yr hufen am 2-3 awr. Berwi'r pasta mewn dwr hallt am ¾ munud. Gwagu'r dwr ac ychwanegu'r hufen a'r pysgod neu'r ham at y pasta. Bydd yr hufen yn tewhau fymryn wrth ei ail dwymo.

Beth am salad gwahanol i roi blas ar weddillion y twrci?

Salad Canol Gaeaf - bresych coch, orennau bychain, blagur blagur Belg (sprouts) a chnau cyll wedi eu rhostio'n sych. Tywalltwch saws wedi ei wneud o 4 rhan o oel cnau cyll i un rhan o sudd lemwn ynghyd a phupur du dros y salad.

<u>Neu</u> beth am fadarch amrwd a blodfresych mewn saws vinaigrette

<u>Neu</u> Ffa Ffrengig, celery a hadau blodyn yr haul mewn mayonnaise

Ac os am rywbeth melys, beth am:

Ffigys mewn Port
Salad ffrwythau poeth
Syllabul lemwn cyflym

(Galwch yn siop Bowen a Davies i gael rysait)

Nadolig Llawen a dyddiau blasus ar ei ôl!

# 20 punt i'w wario!

Dyma ddewis rhai o ddarllenwyr Y Dinesydd :

Pe bai gen i ugain punt i wario ar anrheg Nadolig i rywun, byddwn yn prynu sled newydd i Sion Corn. Byddwn yn prynu hwn achos mae angen un mwy arno er mwyn mynd a llwyth o fwyd a dillad sydd angen ar blant y trydydd byd.

<u>Non Lowri Evans</u>

Petai gen i £20 i wario i brynu anrheg Nadolig, fe fydden i'n prynu'r anrheg i ffrind gorau fy Mamgu. Menyw garedig iawn yw Anti Elsie. Mae Mamgu, sydd yn ei saith degau, yn byw ar ei phen ei hun ac yn byw yn bell iawn o Gaerdydd. Ond diolch i Anti Elsie, mae hi'n gwneud yn siwr fod Mamgu bob amser yn iawn.

Fe fydden ni'n prynu radio bach iddi hi i gadw cwmni iddi am ei bod hi hefyd yn byw ar ei phen ei hun. Yna fe gellith hi wrando ar raglenni Cymraeg a rhoi casetiau i mewn i'r radio drwy'r dydd.

<u>Nia Haf Davies</u>

Pe bai gen i ugain punt fe fyddwn yn prynu toreth o lyfrau dysgu Cymraeg, yn enwedig 'Welsh Is Fun' i George Thomas.

<u>Gwilym Roberts</u>

Pe bai gen i ugain punt yn sbar fe'u hanfonwn, braidd yn anfoddog, at Olygydd y Western Mail er mwyn iddo gyfrannu at asiantiaeth a roddai iddo fanylion am feibion a merched y Gymru Gymraeg a chynnwys yn ei bapur grynodeb o'u gyrfa pan font farw. Y mae'n warth fod papur cenedlaethol(honedig) Cymru mor esgeulus o goffhad gwŷr amlwg Gogledd a De.

<u>Alun Oldfield-Davies</u>

Mae Nadoligau'n mynd a Nadoligau'n dod, a Sion Corn yn selog o glên bob blwyddyn. Mae'n llenwi pob hosan, yn gwireddu pob dymuniad, yn ateb pob llythyr gyda chysondeb cwbl ddibynadwy.
Ond pwy sy'n llenwi ei hosan o? Pwy sy'n cofio prynu anrheg iddo fo o un flwyddyn i'r llall Ddeuda i wrthych chi rwan - fi!! Dyna lle mae fy ugain punt <u>i'n</u> mynd y Nadolig hwn. Ac ar beth? Wel dau beth fydd, gobeithio, yn ei gadw'n ddigon cynnes ar ei daith brysur noswyl Nadolig. Yn gyntaf, potel o'r wisgi gorau (am resymau meddygol wrth gwrs cyn i ni ddechrau cael llythyrau gan ein cyfeillion dirwestol!), ac yn ail cyri poetha'r Paradise ar Cowbridge Road. Os na gynhesith y rheiny mohono fo - druan â fo! Nadolig Llawen Santa a iechyd da!

<u>Caryl Parry Jones</u>

Llythyr Agored at Ddarllenwyr Y Dinesydd

Annwyl Ddarllenydd,

Ers rhai blynyddoedd bellach gwnaethpwyd ymdrech deg gan Ganolfan Addysg Oedolion Glantaf i gynnal dosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mawr siom i ni, methiant fu hanes yr ymdrech honno ar y cyfan. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, er enghraifft, cynigiwyd y cyrsiau amrywiol canlynol yng Nglantaf: Crefftwaith - Creadigol a Thraddodiadol; Cyfrifiaduron; Datblygiad y Symffoni Glasurol; Gwniadwaith; Llawysgrifen Gain; Coginio Bwyd Cyflawn; Garddio; Arlunio; Hanes Cymru. Ni fu'n bosibl i'r un o'r cyrsiau hyn barhau ar ol y cyfnod cofrestru gan mai llond dwrn o bobl yn unig a fynegodd ddiddordeb ynddynt. Mae'n wir i rai dosbarthiadau gydio a llwyddo - Teipio, Cadw'n Heini a Yoga yn eu plith - ond eithriadau yw'r rhain. Un methiant nodedig y tymor hwn oedd yr ymateb a gafwyd i gwrs y Cyngor Addysg Iechyd, 'Gofalwch Amdanoch eich Hunain' - cwrs a drefnwyd yn arbennig trwy gyfrwng y Gymraeg ac a hysbysebwyd yn helaeth: un person yn unig a ddaeth i gofrestru ar ei gyfer.

Mae'r sefyllfa hon yn destun cryn bryder i ni, yn enwedig gan fod tystiolaeth bendant bod Cymry Cymraeg Caerdydd yn mynychu dosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r sefyllfa'n destun pryder nid yn unig am fod Cymry Cymraeg y ddinas wedi methu cefnogi'r ddarpariaeth a wnaed ar eu cyfer gan yr Awdurdod Addysg lleol a'r Adran Efrydiau Allanol, ond hefyd am fod y methiant hwnnw yn amddifadu dysgwyr Cymraeg o gyfle i ymestyn eu profiad o'r iaith mewn sefyllfa naturiol lle y byddai modd iddynt glywed yr iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng, a modd iddynt gymdeithasu â rhai sydd eisoes yn rhugl yn yr iaith.

Yn ffodus nid yw'r drws wedi ei gau o ran dosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglantaf. Mae'r Ganolfan Addysg Oedolion yno yn barod i geisio ymateb i awgrymiadau am gyrsiau newydd (cyrsiau byrion neu gyrsiau estynedig) oddi wrth grwpiau lleol. Os hoffech weld cwrs yn cael ei drefnu mewn maes arbennig ac os medrwch brofi y byddai cefnogaeth i'r fath gwrs, byddai'r Awdurdod Addysg Lleol yn barod i ystyried trefnu ar eich cyfer.

Mae dyletswydd arnom i ymateb i'r her ac i sicrhau ystod helaethach o ddosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Glantaf a chanolfannau eraill. Ni allwn fforddio rhoi cyfle i'r Awdurdodau sy'n gyfrifol am eu trefnu gyhoeddi nad oes galw am ddosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd ac ni allwn fforddio rhoi cyfle i'r rhai sydd wrthi'n ymdrechu i feistroli'r iaith synnu nad oes y fath ddarpariaeth ar gael.

Yn gywir,

Alun Treharne,
Cadeirydd Cymdeithas Dysgwyr De Morgannwg; Cadeirydd Cymdeithas Canna
Elen Rhys
Swyddog Dysgu'r Gymraeg i Oedolion, CBAC
Ann Evans,
Trefnydd, Canolfan Addysg Oedolion, Glantaf
Gwilym Roberts,
Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, Clwb Ifor Bach
Chris Rees,
Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Cymru
Cefin Campbell, Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

DYMUNA

NAN A MERFYN GRIFFITHS

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA


I'W CYFEILLION OLL

## Cydymdeimlo

Bu farw Mrs. Jeanette E. Jones, gweddw'r diweddar Barchedig R.J. Jones, un o gyn-weinidogion Capel Minny Street. Bydd llawer o'n darllenwyr hynaf yn cofio'n annwyl amdani a'i chroeso twymgalon i fyfyrwyr a phobl ifanc a ddaeth i'r brifddinas. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w dau fab, Y Barnwr Hywel ap Robert a'r Parchedig Ddoctor Gwilym ap Robert.

**************

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**



Croeso'n ôl i Mair a John Meredith a fu'n byw am gyfnod yn Brandreth Road, Penylan. Ar y pryd roedd John yn Reolwr ar un o fanciau Lloyds yn y Brifddinas. Ym mis Ionawr bydd yn dychwelyd i Gaerdydd fel Rheolwr Rhanbarthol De Cymru. Mae Sian, eu merch, yn athrawes yn Bancyfelin, ger Caerfyrddin ac mae Huw, y mab, gyda'r Heddlu yn Abertawe.

PAPURAU PAWB - I'R MELINAU ER MWYN MALI

Annwyl Gyfaill,

Yn ystod y misoedd nesaf fe fydd aelodau'r Urdd fel nythaid o forgrug, yn igamogam ar hyd a lled strydoedd wrthi'n brysur yn casglu tunelli o bapur wast. Byddant yn cludo'r papur i'w storio yng nghanolfan yr Adran neu'r Aelwyd, cyn ei drosglwyddo i rwydwaith o ganolfannau mwy ymhob rhanbarth. Bydd y mynydd o bapur yn ei dro yn cael ei werthu i Fasnachwyr Papur Wast ar hyd a lled y wlad. Dyma waith sy'n golygu llawer o amser ac ymdrech, a diferion o chwys, - ond i gyd er mwyn ein cyd-ddyn, sef trigolion un o wledydd tlotaf un y byd - gwlad Mali - sydd wedi ei lleoli ar ffin ddeheuol anialdir y Sahara. Ceir disgrifiad byw o'r wlad a'i phobl yn llyfr Stephen Griffith 'Teithio'r Sahel', o Wasg Y Lolfa 1986.

Bu'r Urdd mewn trafodaethau â Mudiad Cymorth Cristnogol sydd a prosiectau pendant i'w cefnogi yma: Cynllun Iechyd, Gweithdy i'r Anabl a Chynllun Gwaredu Sbwriel yn nhref Timbuktu.

Ers blynyddoedd bu cynlluniau i gefnogi'r bobl i oresgyn effeithiau eu newyn a'u tlodi. Ni fu'r cynlluniau hyn mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd. Heddiw mae'r prosiectau a gynigir yn fwy ymwybodol o angen y bobl, am mai hwy eu hunain sy'n argymell y cynlluniau. Gwel Cymorth Cristnogol y prosiectau hyn fel arwyddion gobaith pendant i drigolion y wlad sydd wedi dioddef am flynyddoedd maith.

Os ydych chi yn barod i gynnig eich gwasanaeth mewn unrhyw ffordd byddwn yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Mae'r Urdd yn gofyn am bedwar math o bapur.

i) Papurau newydd a papur o'r un ansawdd e.e. Radio Times
ii) Cylchgronau o unrhyw fath
iii) Papur Swyddfa
iv) Papur Compiwtar wast (Print-outs)

Medrwch roi help llaw i'r gangen leol drwy helpu i ddidoli'r gwahanol fathau o bapur a'i bacio'n fwndeli, cadw llwythi o bapur i'w gasglu ganddynt, neu os oes gennych adeilad gwag, ei gynnig fel canolfan iddynt storio'r papur.

Os ydych yn gweld eich ffordd yn glir i gynnig unrhyw fath o gymorth, byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn cysylltu â Swyddog Datblygu Lleol yr Urdd

Swyddog Datblygu eich ardal yw Alwyn Ffransis Jones, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Canton, Caerdydd, De Morgannwg. Rhif ffôn: 0222 36201

Yn gywir,

JOHN GWYN JONES,
Trefnydd.

OS AM WERSI PIANO, cysylltwch â Joy Davies, B.Mus.,L.T.C.L. Ffôn: 752173

# Defosiwn a Direidi

Casgliad o Gerddi ac Emynau gan Y Parch D.R. Griffith, y bardd a'r emynydd o Benarth. Pris: £3.50. Cyhoeddwyd gan Wasg Gee

Golygwyd y casgliad gan Robin Gwyndaf a dyma ran o'i gyflwyniad iddo:

'...Hyn yw hyrdwn ei ganu. Salm o fawl ydyw i orfoledd a rhyfeddod byw a bod. Canu i'r cariad tragwyddol sy'n pontio cyfandiroedd ac yn rhychwantu amser, yn clymu dyn a dyn yn gadwyn gref ac yn troi'r marw'n fyw. Y mae hefyd yn weddi: gweddi ar gân mewn cerdd ac emyn am i ninnau gael teimlo gronyn o'r cariad hwn a'i rannu ag eraill, fel y bo iddynt hwythau, fel ninnau, brofi o wynfyd y rhai sy'n rhoi yn hytrach na derbyn...




Amheuthun yw cael cyfrol o farddoniaeth ag iddi gwmpas mor eang, barddoniaeth sy'n ddrych o fywyd yn ei gyfanrwydd: hynt a helynt dyn o febyd i fedd; y llon a'r lleddf...Er rhannu cynnwys y gyfrol yn dair rhan: 'Cerddi', 'Emynau' a 'Phytiau Byrion Ysgafn', nid adrannau ar wahan mohonynt, fel y cyfryw. Y mae iddynt unoliaeth bendant: moli Crewr a Chynhaliwr Bod; cofio cwmni mwyn cyfeillion; canu'n chwareus i droeon yr yrfa. 'Ni bu ddigrifwch heb ddagrau hefyd', medd y bardd. Canlyniad ffydd yw'r gallu i chwerthin. Un funud y mae'r mynegiant yn ddifrifol ddwys, dro arall yn ysgafn,.ddireidus. Yr awdur ei hun a ddewisodd y teitl 'Defosiwn a Direidi'. Ni ellid ei well. Chwedl Islwyn: 'Mae'r oll yn gysegredig'.

Y mae bod yng nghwmni D.R. Griffith yn arial i'r galon. Fy ngobaith innau yw y bydd i ddarllenwyr y gyfrol hon hwythau ymdeimlo â'r ysbryd arialus hwn'.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530


# Cardio Nadolig

CARDIO-PULMONARY RESUSCITATION

Dr. Donald Anderson

Cardio-Pulmonary Resuscitation - C.P.R. Dylai'r dair lythyren fach yna fod yn rhan o bob iaith dan haul fel enw ar allu neu fedr i achub bywyd, ac fe all pawb ohonom ei dysgu.

Petaech calon yn peidio curo am ryw reswm (shoc drydanol, trawiad, boddi) byddai'n go dywyll arnoch onibai fod yna rywun a allai ar fedr CPR yn eich trin o fewn pedair munud.

Yn ddiweddar cês fy mhlesio'n fawr wrth i Awdurdod Iechyd De Morgannwg a Churiad Calon Cymru ymuno mewn gweithgaredd pwysig dros ben. Bwriedir cynnig hyfforddiant i holl ddisgyblion ysgolion uwchradd y Sir i ddysgu CPR. A chan fod gen i ferch yng Nglantaf yr oeddwn yn falch dros ben pan gytunodd Mr. Malcolm Thomas, y Prifathro, y gallai'r ysgol fod ymysg y pump cyntaf i arloesi'r gwaith. Wrth i mi droedio llwybr canol oed mae'n gysur meddwl y gallai aelod o'r teulu fy achub rhag bod yn ffigwr yn ystadegau marwolaeth y gellid fod wedi ei osgoi yn rhestr y Cofrestrydd Cyffredinol.

Enw arbennig yr ymgyrch yw 'Hwb i'r Galon' ac y mae CPR yn rhan bwysig ohono.

Mae'n ffaith gydnabyddiedig fod pobl ifainc yn gallu dysgu a dal ati i fedru CPR yn well nac oedolion ac fe benderfynodd y Gwasanaeth Ambiwlans ddefnyddio'r ffaith a mynd ati wedyn i ddysgu'r disgyblion iau. Gobeithir hyfforddi'r athrawon hefyd. Bydd gofal arbennig yn cael ei roi ar safon dysgu CPR.

Beth yn union yw CPR? - mae'n gyfuniad o adfywhau ceg-wrth-geg â rhoi pwysau rhythmig gofalus ar y frest, er mwyn ceisio ail-gyffroi y galon i guro. Mae'n gofyn tipyn o fedrusrwydd ac fe all fod yn beryglus o'i ddefnyddio gan rai heb hyfforddiant.

Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf mae tua 20% o oedolion America wedi eu hyfforddi ac fe achubwyd llawer o fywydau.

Rhoir hyfforddiant mewn CPR ar ddoliau arbennig iawn - rhai o faint dynol, rhai sy'n ymateb yr un fath a dyn i'r dechneg adfer. Mae pob dol yn costio tua £400 - pris isel am achub bywyd.

Bydd Ysgol Glantaf yn gwneud ymdrech arbennig i helpu tuag at brynu dol, ac estynnir gwahoddiad i bawb ddod i'w helpu. Os dowch, cewch gyfle i roi tro ar ddysgu CPR a hynny o dan ofal gwyr y Gwasanaeth Ambiwlans.

Nid y chwiw ffasiynnol ddiweddaraf yw CPR ond ffordd i achub bywyd.

Os digwydd i'ch calon sefyll yn stond rwy'n gobeithio y bydd y person nesa' atoch chi'n medru CPR.

Gyda llaw - enw'r ddol yn Saesneg yw Resusci-anni, beth am Adfer-anna yn Gymraeg?

CHERNOBYL - TROBWYNT GWAREIDDIAD?

Does dim cosi'r wyneb yn bodoli pan fo'r Gymdeithas Wyddonol, Cylch Caerdydd, yn codi'i phen. Yn hytrach, dyna neidio'n syth i'r pen dyfn, a chrafu'r briwiau'n iawn. A pha graith sy'n well i'w phigo na helynt Chernobyl, yn enwedig o'i hamseru hi i'r diwrnod y methodd y trafodaethau yn Reykjavik rhwng Reagan a Gorbachev.

"Chernobyl - Trobwynt Gwareiddiad?" felly, oedd darlith gynta'r tymor newydd, a gynhaliwyd ar nos Lun, Hydref 13eg. Fe'i thraddodwyd, i gynulleidfa dda, gan Mr. Glynn M. Owen, yr Adran Ffiseg o'r Ysbyty Athrofaol, Caerdydd.

Er fod y pwnc yn un difrifol, nid sych mo'r drafodaeth. Cawsom wybod am effaith y ddamwain yn Chernobyl ar lefel yr ymbelydredd o'r gwahanol elfennau. Dangosodd bod cynnydd go sylweddol wedi ymddangos yn lefel yr eiodin -131, a hynny yn sgil y glaw dros Wyl y Banc.

Bu tîm o ymchwilwyr, yn yr Ysbyty Athrofaol, yn mesur newidiadau y radio-egniaeth mewn llaeth, cig anifeiliaid a phobol, gan ddangos bod lefel y sisiwm (Cs) ymbelydrol yn dal i godi, hyd heddiw. Ond peidiwch a phoeni dim. Tydi'ch gwallt ddim yn debyg o ddisgyn o'ch pen tra'ch bod chi'n cysgu heno!. Tydi'r lefel ddim yn arwyddocaol gan ei fod ymhell o dan yr isafbwynt a benodwyd gan y Llywodraeth. Yn wir, mae'r perygl o ymbelydredd yn uwch os arhoswch chi am ddeuddydd ym Mhenmaenmawr, lle mae'r lefel naturiol yn uchel, neu os ewch chi mewn awyren i'r Unol Daleithiau (pelydrau cosmig) neu hyd yn oed o aros gartref os oes gennych chi ffenestri dwbwl yn y tŷ!

Chernobyl - trobwynt gwareiddiad? Wel yndi siwr iawn, oedd f'ateb di-hid innau CYN i mi glywed y ddarlith. Ond o bwyso a mesur yr amryw ddulliau o gynhyrchu ynni, a chofio'n enwedig yr holl ddamweiniau'n y pyllau glo, a'r effaith "Tŷ Gwydr" o losgi defnyddiau organic, wel, tydwi ddim mor siwr. Ac er mor boeth oedd adweithydd Chernobyl y diwrnod hwnnw ym mis Ebrill, coeliwch chi fi, roedd hi'n boethach fyth yno Nghlwb Ifor Bach pan ddaeth y trafodaeth a'r holi ar y diwedd.

Pleser, addysg, cymdeithasu â chyd-Wyddonwyr, drwy gyfrwng fy mamiaith. Rwy'n fodlon. A chithau? Beth amdani? Mae'r cyfarfod nesaf yn ymdrin â "Fferonomau Mewn Rheolaeth Pläon" ar Dachwedd 10fed, am 8.00 p.m. Dr. Owen T. Jones (Biological Control Systems Cyf., Trefforest) sy'n traddodi'r ddarlith, ac fe'i cynhelir yn lolfa foethus Clwb Ifor Bach. Mi'ch gwela'i chi yno!


**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

# Wyddoch chi?

Nid marc post arbennig Bethlehem Judea a Bethlehem Shir Gâr yn unig sy'n boblogaidd dros y Nadolig. Fe roddir marc post unigryw ar bob llythr a anfonir o bentref ChristKindle (Y Plentyn Crist) yn Awstra, hefyd. Dyw'r pentref ddim yn ddigon mawr i gael ei Swyddfa Bost ei hun, ond ers 1950 agorwyd 'stafell yn y dafarn leol i ddelio a'r mil a mwy o lythyrau a bostir oddi yno. Fe fydd y marc post yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 1958 dewiswyd barrau agoriadol y garol Dawel Nos i ddathlu'r 140 o flynyddoedd ers ei chyfansoddi.

Adeg y Nadolig 1818, pan dorrodd yr organ yn Eglwys Hallein yn Awstria, bu'n rhaid i'r organydd lleol, Franz Gruber a'r Offeiriad, Y Tad Joseph Mohr, gyfansoddi cân newydd ar fyrder i'r côr lleol ei chanu i gyfeiliant gitar, noswyl y Nadolig. Dawel Nos, Sanctaidd Nos oedd y gân honno.

Blue Christmas - Shakin Stevens - daeth i frig y siartiau Nadolig ym 1982. O Drelai y daw Shakin Stevens ei hun a Chymro Cymraeg a fagwyd yn Abertridwr yw un o brif offerynwyr y grŵp.

White Christmas yw'r gân Nadolig a recordiwyd amlaf ond Mary's Boy Child a ganwyd gyntaf oll gan Harry Belafonte ym 1957, yw'r gân Nadolig fwyaf llwyddiannus.

Ym 1979 y dechreuwyd bathu arian arbennig ar gyfer y Nadolig - a hynny yn yr Eil-o-Man. Darn arian £1 ydyw yn dangos y 'triskelion' ar fap o'r ynys ar un ochr a chynllun gwahanol bob blwyddyn ar yr ochr arall. Nadolig 1981, i nodi Blwyddyn Ryngwladol y Pysgotwyr, rhoddwyd llun Hela'r Dryw Bach ar bunt y Nadolig. Slawer dydd roedd hi'n arfer ar yr ynys i roi'r dryw a laddwyd mewn basged o gelyn a iorwg a'i hoelio wrth y mast ar Ragfyr 26 fel arwydd o lwc dda i'r pysgotwyr yn y flwyddyn newydd.

Dim ond un wlad arall ddilynodd yr Eil-o-Man - Ynys Tonga! Ym 1982, bathwyd darn arian oedd yn ddigon rhad i bawb ei brynu gyda llun eu brenin ar un ochr a llun "Dwylo'r Weddi", Albrecht Durer, ar yr ochr arall gyda naw seren Bethlehem o'i gwmpas.

Ym Mint Pobjoy Sutton, Swydd Surrey, y cynhyrchir yr arian i'r ddwy ynys.

Does dim lleuad i foddi goleuni a disgleirdeb y sêr ar Ragfyr 25. Ond un seren na welwch yw Seren Bethlehem. Does neb yn gwybod pam - na beth yn union oedd Seren Bethlehem.

Gyda llaw, a wyddech chi fod sawl Bethlehem arall heblaw Bethlehem Judea a Shir Gâr? Mae 'na Fethlehem yn Seland Newydd, De'r Affrig, Georgia, Kentucky, Indiana a Maryland.

E.R.

PRYNU GWEITHIAU CELFYDDYD
CYMORTH I BRYNU GWEITHIAU CELFYDDYD
PRYNU ANRHEG NADOLIG


Os am brynu darlun neu gerfyn at y Nadolig, neu unrhyw amser arall, da yw gwybod fod yna gynllun casglu wedi ei drefnu gan Gyngor y Celfyddydau yng Nghymru. Dymuniad y Cyngor yw gwneud popeth posibl i gynorthwyo a chefnogi'r nifer o orielau bychain a gweithgar sy'n tyfu ar hyd a lled y wlad, ac hefyd i brynu gweithiau yn rhwyddach.

Cynigia'r gwasanaeth hwn fenthyciadau di-log er hwyluso prynu gweithiau o bob math gan artistiaid byw. Ni chodir unrhyw gostau am y gwasanaeth. Gellir benthyg hyd at £500 i'w dalu'n ôl yn fisol dros gyfnod dim hwy na 12 mis, er mwyn gwneud un pwrcas. Os am brynu mwy na un, yna y mwyafrif yw £1,000. A dim llog!

Os am ragor o fanylion ysgrifennwch at:
Cyngor Celfyddydau Cymru,
9 Stryd yr Amgueddfa,
Caerdydd. CF1 3NX
neu galwch heibio un o'r orielau sydd wedi eu henwi isod, a gofyn am bamffled a ffurflen.

Yr orielau a ganlyn yw'r rhai sy'n gweithio y cynllun yng Nghaerdydd -

Chapter, Heol y Farchnad, Canton.
Coleg Celf Gerddi Howard
Oriel, Heol Siarl
Oriel Albany, 74b Albany Road
Oriel Andrew Knight, 31 Heol Siarl






**BYDDWCH YN SIWR O GAEL NADOLIG LLAWEN A *SAWL* BLWYDDYN NEWYDD DDA YNG NGHWMNI RECORD NEU GASET GAN SAIN!!**

- **HUW CHISWELL** EI RECORD GYNTAF O'R DIWEDD! *SAIN 1396M/C966N*
- **DAFYDD IWAN** EI RECORD GYNTAF AR EI BEN EI HUN ERS 7 MLYNEDD! *SAIN 1385M/C985N*
- **TREBOR EDWARDS** UN ARALL GAN EIN PENGANTOR! *SAIN 1387D/C987*
- **LLEISIAU LLANDDWYN** PARTI PLANT BENDIGEDIG O FÔN *SAIN C972*
- **CÔR MEIBION CAERNARFON** "Y BYD AR BETWS" *SAIN 1391D/C979*
- **GWERGAN** CASET O GANEUON Y GRŴP IFANC O DDYFED
- **CADW REIAT** PIGION SESIYNAU'R RHAGLEN ROC AR GASET
- **DAWEL NOS** CASET O GAROLAU HEN A NEWYDD — GWYCH! *SAIN C963*
- **EMRYS ALED PARRI** ETO FYTH! (GYDA ROBIN WILLIAMS) CASET YN UNIG. LLAFAR — A DIFYR IAWN! *SAIN C600*
- **GORAU GWERIN** — CYFROL 2 *SAIN 1382H/C982G*
- **4 YN Y BAR** EU HAIL RECORD ARBENNIG "NEWID CYNEFIN" *SAIN 1392M/C992N*
- **ANNETTE, MARINA AC OLWEN** DAWN ANNETTE AR Y PIANO A THRIAWD TŶ'R YSGOL *SAIN 1370M/C970N*
- **GOREUON CORAU MEIBION CYMRU** — CYFROL 2 *SAIN 1381H/C981G*
- **CÔR GODRE'R ARAN** GYDA TOM EVANS, MARIAN ROBERTS, GARETH LLOYD "O ERWAU GODRE'R ARAN" *SAIN 1388D/C988*

**SAIN** · LLANDWROG · CAERNARFON
GWYNEDD LL54 5TG · (0286) 831.111

**LLENWCH EICH ENW YMA — A BYDD GENNYCH GYFLE I ENNILL PEIRIANT RADIO/CASET SAFONOL!**

ENW ......................................

CYFEIRIAD ......................................

......................................

DYDDIAD ............................ 1986

PRYNAIS RECORD/CASET NEWYDD ......

......................................

YN SIOP ......................................

**I'w ddychwelyd i'r siop cyn 31 Rhagfyr 1986**





# HWYL A FFLAG

SHERMAN Theatre

Y SIOE NADOLIG

yn cyflwyno

JIM CRO CRYSTYN

Sioe Nadolig Newydd Sbon i'r Teulu Oll

Awdur - Cefin Roberts
Cyfarwyddwr - Gwen Ellis
Cerddoriaeth - Geraint Cynan

THEATR SHERMAN, CAERDYDD

Dydd Mawrth, 27 Ionawr - Dydd Gwener, 30 Ionawr
10.00 a.m. a 1.15 p.m.
Dydd Sadwrn, 31 Ionawr, 2.00 p.m. a 5.00 p.m.

Dydd Mawrth - Dydd Gwener £2.60 (dim gostyngiadau)
Dydd Sadwrn - Oedolion £4.50; Plant £3.50

Tocynnau oddi wrth Theatr Sherman, Ffordd Senghennydd, Caerdydd. Ffôn - Caerdydd 30451/2

# CYFARCHION



Llongyfarchiadau i Mr. Handel Morgan, Llandennis Avenue, ar ddathlu ei benblwydd yn bedwar ugain oed ar Dachwedd 24ain. Daeth ei deulu ynghyd yng Nghaerdydd i ddymuno'n dda iddo fo ac wrth gwrs i'w wraig Heulwen. Mae eu merch, Sian Thomas yn byw yn Rhiwbeina ac yn adnabyddus i gannoedd o ddarpar-delynorion ifainc y ddinas. Ati hi a'i gŵr, Huw, Prifathro Ysgol Cwm Rhymni daeth ei dwy chwaer - Judi sy'n byw ym Milan, Yr Eidal gyda'i gŵr, Ugo, ac Ann a'i gŵr, Ger, o Amsterdam, o longyfarch Mr. Morgan. Yn anffodus doedd ei brawd, Paul, ddim yn gallu bod gyda nhw am ei fod yn dilyn ei alwedigaeth ar y môr mawr. Mae'n siwr mai llawenydd mawr i Mr. a Mrs. Morgan oedd derbyn cyfarchion eu hwyrion oll - Guto, Daniel a Lisa; Grovanna, Elin a Sara, Gruffudd ac Edward! Fel rhan o'r dathliadau cynhaliwyd cyngerdd yng nghartref Sian a Huw, noson o ganeuon gwerin, lieder ac opera.Cafwyd gwledd o noson a 75 o bobl yn helpu dymuno'n dda i Handel ac yn cyfrannu ar yr un pryd i Gapel Tabernacl.

---

Deallwn gan 'Non J.' un o'n darllenwyr ac un sy'n gweithio yn y Gegin Geltaidd sef ystafell fwyta'r Amgueddfa Genedlaethol mai Cymraeg, Mrs. Morwen Tucker, ynghyd â chyfeilles sy'n rhedeg y Gegin yn awr. Soniwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd am ail-agoriad yr ystafell fwyta ac mae'n dda clywed am swydd Morwen. Mae'n amlwg y bydd yno groeso arbennig i Gymry'r ddinas i (a dyfynnu Non) 'fwynhau bwyd arddercho a sgwrs fywiog yn nhafodiaith Dyfed'. Beth am gefnogi?


SWYDD RHAN AMSER I WEITHIO GYDA PHOBL IFANC 12-14 OED

Bob nos Fawrth, 6.30-9.00 p.m.

Manylion am y cyflog ac ati oddi wrth Y Pennaeth, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Canton, Caerdydd. Ffôn: 36201


## CYMDEITHAS FFRINDIE DEWI SANT

Mae'n ffaith anffodus ond yn aml iawn mae'n cymryd digwyddiad ysgytwol i'm siglo i i weithredu. Y digwyddiad yn fy achos i yn ddiweddar, oedd rhoi genedigaeth i'm merch Elin, a'r weithred (os gweithred hefyd) - rhoi ceiniog neu ddwy yng nghoffrau cymdeithas gefnogol yr ysbyty y'i ganed ynddo - Ffrindie Dewi Sant (The League of Friends of St. David's).

Sylweddoli'r gwaith anhygoel a wneir gan holl staff yr ysbyty oedd y symbyliad ac mae'n ofid imi nad oeddwn gynt yn fwy ymwybodol o'u hymroddiad nhw - a llawer tebyg yn ein cymdeithas.

Yn wir, mi ges ofal ganddyn nhw a hynny dan amodau a chyfleusterau digon cyfyng; hen iawn yw adeilad Ysbyty Dewi Sant - ysbyty sy bellach yn canolbwyntio ar ofalu am yr henoed a'r mamau. Ond er y cyfyngiadau adeg digon hapus os nad doniol ges i yno.

O ffeindio fy hun yn y 'labour ward' am dri o'r gloch y bore (rhyfedd fel mae babis wastad yn cyrraedd yn y nos!) doeddwn i ddim wedi disgwyl cael Radio 2 yn gwmni imi a phoendod i mi oedd sylweddoli y buasai'n rhaid imi weithio'n galed iawn i bennu gwaith y noson cyn i'r **Derek Jameson** dychrynllyd yna gyfarch y bore godwyr. Roedd cael babi a gwrando arno fe run pryd yn ormod i'w ddisgwyl gan unrhyw fam!

Ffeindio fy hun wedyn yn y ward ynghanol deg o famau a deg o fabis newydd anedig - pob un yn crio o'u perfedd. Sut all babis mor fach greu swn mor fawr dwedwch? A sut oedd disgwyl inni'r mamau ufuddhau i orchymyn y nyrsys a chael digon o 'rest' a chwsg, dwn i ddim. Er hynny, wedi setlo yno, mi ges sawl sgwrs ddifyr gydag amryw o'r merched yno am ddau....tri....pedwar y bore yn trafod manylion pwysig fel codi gwynt ar fabis neu newid 'nappy'.

A son am lanast! Sawl gwaith y clywes i'r fam drws nesa i mi, o'r tu ôl i'r llenni, yn ebychu ar allu'i mab (Joshua to be called Josh, chwedl hithau) i lenwi'i nappy dro ar ôl tro. Unwaith eto, sut all babis mor fach greu........

Ac ynghanol hyn oll ai'r nyrsys yn dawel a heddychlon o gwmpas eu gwaith yn gwrando ac yn cysuro ambell fam yn ogystal â'i hepil.

Byddai,fe fyddai'r nyrsys yma yn gwerthfawrogi gwell amodau gwaith a dyna yw amcan Cymdeithas Ffrindie Dewi Sant - gwella cyfleusterau ysbyty. Eleni mae'r gymdeithas wedi prynu offer di-ri, dau beiriant Ultra Sonic yn eu plith (y naill yn £600 a'r llall yn £400 mewn gwerth). Eu prosiect diweddara yw creu gardd addas yng nghefn yr adeilad - er defnydd yr holl drigolion. Maent ar fin derbyn siec o £1,000 gan y Prince of Wales Trust ond swm bach yw hwnnw o gymharu â'r £4,500 sydd ei angen i orffen y gwaith. Dibynnu wnant ar gyfraniadau a chodi pres drwy amryw ffyrdd. Yr achlysur nesa fydd y Ffair Crefftau i'w chynnal ar Dachwedd yr 20fed yn y neuadd yng nghefn yr ysbyty a bydd croeso brwd yno i bawb brynu Croeso mor gynnes a hwnnw ges i yn Ward 4 mae'n siwr. Diolch i bawb yno!

O.N. Gellid cael mwy o fanylion am Gymdeithas Ffrindie Dewi Sant drwy gysylltu â :

Heather Lane,
Yr Adran Gymdeithasol
Ysbyty Dewi Sant

Carys Hall Evans

---

## Cerddorfa Newydd

Codwyd Cerddorfa newydd yng Nghymru eleni; Cerddorfa Siambr Cymru dan gyfarwyddyd Anthony Hose. Gobaith y Gerddorfa yw perfformio'n rheolaidd yn y Gyfnewidfa Lo yn Nociau Caerdydd ac ar nos Sadwrn, Medi 27ain, cynhaliwyd yno eu cyngerdd cyntaf; y gyntaf o gyfres a'r gyntaf i ddefnyddio'r Gyfnewidfa ar ei newydd wedd. Doedd dim dwy-waith mai llwyddiant o noson oedd hi ar y cyfan. Mae gan y lle acwstig derbyniol iawn a, o ran maint, mae'n rhoi'i hun yn dda at alwadau cyfyng Cerddorfa Siambr. Er cystal Neuadd Dewi Sant fe ellir dadlau ei bod hi'n rhy fawreddog i gyngerdd Siambr a mae dirfawr angen neuadd lai a mwy pwrpasol. Dyma lanw'r angen mewn modd cwbl annisgwyl a modd cwbl ystyrlon.

Roedd gan y gyngerdd arwyddocad arbennig gan mai'r unawdydd wadd oedd Moura Lympany a hithau'n teithio i ddathlu cyrraedd oed yr addewid. Mae hi wedi bod yn bianyddes cyngerdd ers llawer o flynyddoedd ac mae'n dal yn ei nerth a'i disgleirdeb.

Os oedd gan Moura Lympany gyfoeth profiad, torri dannedd mae Cerddorfa Siambr Cymru. Mewn grwp Siambr mae pob chwaraewr yn cyfri. Does dim modd i neb guddio dan gochl neb arall ac eto rhaid i'r grwp swnio fel cyfanwaith. Hanfod bodolaeth uned fel hon yw ei bod hi'n ymarfer ac yn perfformio'n aml er mwyn i bob unigolyn ymdoddi'n un sain cyfun. Nid felly oedd hi y noson honno ac wrth fynd i'r afael a Symffoni Rhif 29 gan Mozart i gloi'r noson fe ddatguddiwyd rhai o'i gwendidau. Dyma un o weithiau mwyaf afieithus y Mozart ifanc sy'n dangos addewid ffactor ond ystrydebol a diofal oedd y perfformiad a gawsom. Diffyg asbri, diffyg ysbrydoliaeth ynghyd a llawer i wendid technegol oedd yn gyfrifol am ddatganiad siomedig, yn arbennig felly yn y ddau symudiad olaf.

## Torth o Fara

Mae tymor yr Ŵyl wedi cyrraedd unwaith eto a phrysurdeb paratoi at Ragfyr y 25ain wedi cychwyn. Mae fy nghacen Nadolig yn y ffwrn tra rwy'n sgwennu'r erthygl hon ac mae'n rhaid i mi gyfaddef mai dyma'r unig beth rwyf wedi'i wneud hyd yn hyn ar gyfer dydd Nadolig.

I mi un o bleserau mwyaf yr adeg yma o'r flwyddyn yw y 'gwneud'. Rwyf wrth fy modd wrth wneud anrhegion bach ar gyfer aelodau'r teulu a'm ffrindiau a chredaf bod anrheg personol o'r fath yn aml yn rhoi mwy o bleser i berson na rhywbeth sydd wedi cael ei brynu. Ond, fel pawb arall, rwyf hefyd yn dibynnu ar y siopau i'm cyflenwi gyda phob math o bethau sydd wedi dod yn gysylltiedig a'r Nadolig - ac nid oes prinder yn y dewis fel gellir gweld wrth ymweld a archfarchnadoedd neu unrhyw siop; mae'r Nadolig yn lwyddiant masnachol!

Mae'r bwyd ar gyfer y Nadolig yn enrhaifft da o hyn. Erbyn hyn nid oes angen medrusrwydd yn y gegin na llyfr Mrs. Beaton i'n helpu ac mae'n amlwg bod pobl yn cymryd mantais o'r hyn a gynigir iddynt yn y siopau. Bob blwyddyn gwerthir dros 13 miliwn o bwdinau Nadolig; prynir tua 85 o dwnelli ohonynt yn Harrods; mae cwmni Manor Bakeries (Mr. Kipling) yn cynhyrchu cywerth o un fins pei i bob person ym mhoblogaeth Prydain Fawr ac fe fydd dros 16 miliwn o dwrciod yn cael eu bwyta ar ddydd y Nadolig.

Gwerthwyd twrciod ym marchnadoedd Llundain mor gynnal a 1553 fe'u mewnforiwyd o ogledd a chanol America yna fe'u gyrrwyd ar droed i'r brifddinas o Norfolk. Er mai dim ond gydrhwng 1 a 2 filiwn o dwrciod y flwyddyn a werthwyd erbyn pumdegau'r ganrif hon erbyn hyn maent wedi cymryd drosodd o'r wydd ar fwrdd cinio'r Nadolig.

Credir rhai bod syniad gwreiddiol ein pwdin Nadolig yn dod o wlad Groeg lle ceir pwdin poblogaidd wedi ei wneud o ffigys a mel ond mae'n fwy tebygol ei fod wedi cael ei ddatblygu o'r pwdin traddodiadol Celtaidd, y Llymru. Traddodiad rhai mannau oedd bwyta llymru ar ddathliad yr alban arthan. Blawd ceirch a llaeth enwyn oedd prif gynhwysion y pwdin gwreiddiol, yn ddiweddarach ychwanegwyd sbeis, wyau ac yna eirin sych a ffrwythau sych eraill iddo. Efallai dyma pam galwyd y pwdin yn 'plum porridge' gan ein hynafiaid.

Un rheswm pam y dewiswyd y 25ain o Ragfyr fel dyddiad i ddathlu Geni Crist oedd pwysigrwydd y dyddiad hwn yn chwedloniaeth paganaidd : yr alban arthan. Defnyddir hen draddodiadau Cristnogol eraill hefyd yn ein dathlu. Mae eiddew, celyn a uchelwydd yn symbolau ffrwythlonder paganaidd; sant o Rwsia oedd San Nicolas, o'r 4edd ganrif ac fe ddethlir ei wyl hyd heddiw ar Ragfyr 6ed yn yr Iseldiroedd a'r Almaen; mae cysylltiad cydrhwng coed fferrer a'r hen wyl Rufeinig, Saturnalia, a gynhaliwyd o Ragfyr 17 i'r 24ain, er mai'r Tywysog Albert gyflwynodd y syniad o ddefnyddio'r coed yn y wlad hon.

Ond yn ol at y pwdin. Ni weinir pwdin Nadolig yng ngwledydd y Cyfandir; yn Ffrainc gorffennir y pryd gyda chacen siap boncyff, yn yr Iseldiroedd gweinir pwdin reis ag almon. Yn yr Almaen paratoir bisgedi a bara arbennig ar gyfer y Nadolig: defnyddir ffurfiau wedi'u torri allan o'r bara i addurno y goeden Nadolig ac fe oedd siap traddodiadol y 'Stollen' yn bortread symbolig o'r baban Iesu wedi ei rwymo mewn cadachau. Trueni nad oes darn o arian tebyg i'r hen chwech cheiniog ar gael i ni gael ei roi yn ein pwdin Nadolig y dyddiau hyn ynte.

Diddorol yw darllen am draddodiadau Nadolig gwledydd eraill, ac er fod dylanwad yr oes Victoria yn gryf ar y ffordd rydym ni yn dathlu'r Wyl mae rhai o'n traddodiadau ni hefyd yn dal i barhau. Edrychaf ymlaen at fynd i wasanaeth Plygain ac am wneud cyflath pan fyddaf yn dathlu'r Nadolig yn yr hen Sir Drefaldwyn. Gobeithio cewch chwitha hefyd hwyl wrth wneud ac wrth roi dros y Nadolig, ond cofiwch "gormod o ddim, nid yw dda"!

Gorffennaf gyda'm ryseit ar gyfer gwneud cyflath.

<u>Cyflath Maesgarthbeibio</u>

½ pwys o driog du
½ pwys siwgr bras
¼ pwys o ymenyn

Dodwch y cynhwysion mewn sosban, gofalwch fod y siwgr wedi toddi cyn ei ferwi. Yna berwch yn gyflym. Mae'n barod pan fydd tamaid ohono yn gwneud pelen galed mewn cwpan o ddŵr oer. Arlloeswch i dun wedi ei iro'n dda. (Mae Mam bob amser yn cymeryd tameidiau o'r cyflath ac yn ei dynnu dwrstio a'i hystyn o un law i'r llall hyd nes mae'r cyflath yn olau ei liw ond mae angen gofal gyda'r broses gan fod y cyflath yn boeth iawn).

## NEWYDDION

Fe gofio cyfeillion Mudiad Ysgolion Meithrin a Rhieni Ysgolion Cymraeg am gyfraniad y pensaer Gerald Latter i'r mudiadau yn ardal Bae Colwyn. Mae Gerald a'i wraig yn symud i Gaerdydd cyn hir a byddant yn mynd i fyw i Landaf. Croeso cynnes iddynt.

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r chwech diacon newydd yng Nghapel Gwaelod y Garth, sef Eluned Davies-Scott, Gillian Green, Eleri Jones, y Dr. Meurig Davies, Eurfryn Thomas a Peter Thomas

## Syniadau Blasus

Daeth cynulliad dethol ynghyd yng Ngwesty'r Angel i longyfarch enillwyr cystadleuaeth arbennig 'Syniadau Blasus 1986'. Noddwyd y gystadleuaeth ar y cyd gan Fanc Barclays CCC a "Datblygu'r Canolbarth". Enillwyd y prif wobr o £5,000 gan Gwynfor a Thelma Adams o Fferm Glyneithinog, Castell Newydd Emlyn. Eu 'syniad bwytadwy' oedd eu caws moethus wedi'i wneud o laeth ffres o'r safon uchaf, heb ei basteureiddio ac yn dilyn rysait a fu'n rhan o etifeddiaeth y teulu ers canrifoedd. Gwneir pedwar gwahanol fath o gaws ganddynt - Caws Cenarth mwyn, ac aeddfed; Caws Caerffili traddodiadol a chaws ag ynddo flasau naturiol - i gyd heb unrhyw fath o adchwanegion o gwbl. Daw'r llaeth i gyd oddi wrth y gwartheg Friesan Prydeinig/Holstein sy'n pori ar gaeau bras Glyneithinog. Dywedodd Thelma Adams "Bu ennill y wobr o fudd mawr inni ac fe'n galluogwyd i ddatblygu y busnes yn gynt nag a dybiwyd"

Yn ail yn y gystadleuaeth oedd Mary Davies o Welsh Lamb Products, Llandysul. Gwelwyd fod ganddi gynnyrch newydd gan wneud defnydd o gig oen Cymreig o safon uchel. Bu profiad arlwyo Mary ynghyd a gwybodaeth eang ei gwr am ddefaid yn sylfaen gadarn i ddatblygu'r 'lamburger' sylfaenol. Erbyn hyn, mae Mary yn cynhyrchu Oen Cief, Golwyth Oen, Coes Oen a Mintus a Stec Oen - yr holl wedi'u pacio'n dwt a'u cludo i'r siop neu'r gwesty lle bo galw.

Yn gydradd ail yn y gystadleuaeth oedd Peter a Jan Abbott o 'Cambrian Traditional Foods'- Tywyn, Gwynedd. Busnes arbennig iawn oedd gan y rhain yn canolbwyntio ar gigoedd a physgod o bob math wedi'u halltu ac wedi'u cochi mewn deri yn y ffordd draddodiadol. Roedd blas hyfryd gan yr holl fwydydd a baratowyd yn y dull gwreiddiol hwn.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr - braf gweld mai o Gymru daeth y tri er bod y gystadleuaeth yn agored i Brydain i gyd.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# John Albert yn AWSTRALIA

Gair mawr ieuenctid heddiw pan yn disgrifio unrhyw beth sy'n ddiflas yw 'boring' ac rwy'n siwr taw dyna fyddwch chi'n galw'r erthygl hon. Tybed a yw profiadau teithiol rhywun o ddiddordeb cyffredinol. Fodd bynnag gofynodd Shan Emlyn i mi ysgrifennu rhywbeth am fy nhaith i Awstralia ac amhosibl dweud 'Na' wrthi hi sy'n sgwennu cymaint o'r Dinesydd bob mis, ac yn siwr o'i ddarllen i gyd. Oes yna rywun arall tybed?

O ganlyniad i wahoddiad a dderbyniais oddi wrth Gymdeithas Gymraeg Sydney a Melbourne a Phrifysgolion y ddwy ddinas yma, ynghanol mis Medi cychwynais ar fy nhaith i ben draw'r byd yn ddigon nerfus - rhyw 23 awr mewn awyren ac ar ben hynny tybio faint o ddiddordeb fyddai yn Awstralia yn nyfodol yr iaith Gymraeg. Er mwyn byrhau'r daith torais fy siwrnai yn Singapore - lle cyffrous iawn ond dinas sy'n prysur iawn yn ymdebygu i unrhyw ddinas fawr yn America. Canfod wrth geisio prynu wats i gyfaill i mi bod yr un siop-wraig yn cynnig gwneud hanner dwsin o grysau newydd sbon i mi mewn chwech awr. Rhaid oedd eu hatgoffa fy mod yn dod o Fwlch y Llan a bod dau grys yn ddigon i unrhyw Gardi. Doedd ganddi fawr o gydymdeimlad a'r syniad a diflanodd yn sydyn i chwilio am 'fyg' arall.

Braf oedd y daith ar un o awyrenau Qantas a brafiach oedd cael glanio'n ddiogel yn Sydney a chael croeso tywys-ogaidd gan yr Athro Stephen Knight o'r Brifysgol a'r bynaws Horatio Rees, Ysgrifennydd gweithgar Capel Cymraeg Sydney. Cawsom noson lawen hyfryd yn y capel ar y nos Wener cyntaf a chefais fy synnu bod cymaint o dalent cerddorol Cymreig yn Sydney. Wrth i mi geisio canu cân werin, sylwais bod un ddynes yn crio yn go iawn - na does dim byd newydd.
Trefnais gwrs penwythnos i ryw 30 o ddysgwyr arbennig o frwd yn y capel Cymraeg a gorffenwyd y penwythnos gyda gwasanaeth yn y capel. Synnais gymaint o ddiddordeb oedd gan y dysgwyr ifanc hyn yng Nghymru a'u hawydd i ddysgu'r iaith yn rhugl. Cefais gyfnod hapus iawn yn y Brifysgol yng nghwmni Stephen Knight a gafodd ei eni yng Nghaerffili ond a oedd wedi dysgu Cymraeg ar ei ben ei hun yn Awstralia. Roedd ganddo ddosbarth brwd o ddeg o bobl ifanc yn cyfarfod yn wythnosol - cefais lawer o hwyl yn eu cwmni ac yn rhyfeddu at eu dyfalbarhad, ac yn rhyw feddwl petai ambell i goleg yng Nghymru yn gwneud rhywbeth tebyg i Brifysgol Sydney, efallai y byddai gwell siap ar bethau.

I ffwrdd am Melbourne mewn awyren er mwyn trefnu cwrs chwe noson yn y Brifysgol. Cael fy hun yn wynebu dosbarth Cymraeg mwyaf fy mywyd gyda dros hanner cant o fyfyrwyr eiddgar. Roedd ganddynt amryfal resymau dros dalu trigain doler am ddioddef rhyw ddwy awr a hanner o geisio ymdopi â synnau rhyf-edd y Gymraeg. Roedd dros ugain o'r myfyrwyr o dan bump ar hugain oed a sylweddolais unwaith eto bod gwaith grwp yn holl-bwysig i'r dysgwyr a bod llawer gormod o ddysgu Cymraeg i Oedolion yn athro ganolog.

Ie, wythnos gofiadwy ac rwy'n siwr y bydd i Cennard a Basil dderbyn llawer o archebion am eu cyrsiau diweddaraf. Gorffen yr wythnos gyda pharti hapus dros ben a llawer 'midi o'r ysgafn' wedi diflannu cyn troi am adre.

Roedd croeso Melbourne llawn mor gynnes a Sydney a braf oedd cyfarfod a Chymry oedd wedi meistroli'r iaith yn ardderchog mor bell o gartref. Oes mae gan yr iaith Gymraeg ffrindiau ym mhellfaoedd daear.

Gadael Melbourne a throi am Hong Kong a chael cyfle i fynd i China - ond mae honno'n stori arall ac efallai os bydd y Dinesydd yn brin o ddefnydd rywbryd y cewch fy argraffiadau o'r llefydd cyffrous a rhamantus hynny hefyd.

John Albert Evans.

---

# Ffarwelio â Phil


Ym mis Medi 1987 bydd y Dr. Phil Ellis, ei wraig, Angharad, a'u mab, Dafydd, yn cychwyn ar eu taith hir o Benylan i Batangonia. Daw'r profiad yma yn sgil apel gan gapeli Cymraeg y Wladfa am weinidogaeth drwy gyfrwng yr hen iaith. Cymdeith-as Cymry Ariannin sydd wedi bod yn gyfrifol am drosglwyddo'r apel gan wahodd ceisiadau yn ystod misoedd yr haf. Pender-fynodd Pwyllgor y Gymdeithas osod enw Dr. Ellis gerbron Cyngor Eglwysi yn y Wladfa, ac fe gadarnhawyd yr apwyntiad yn ystod ymweliad diweddar Shan Emlyn, Ysgrifenyddes y Pwyllgor, â'r Ariannin.

Mae Dr. Ellis yn henuriad yn Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd, ac wedi bod yn pregethu mewn capeli lleol Cymraeg. Erbyn hyn mae wedi cael caniatad gan Awdurdod Addysg Morgannwg Ganol i fod yn rhydd o'i gyfrifoldebau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, lle mae'n athro ers tair mlynedd ar ddeg, am gyfnod yr ymweliad.

Mae ei ddiddordeb yn y Wladfa i'w olrhain dros amser gweddol hir. Cafodd ei eni a'i fagu yn Lerpwl, man cychwyn y Mimosa a'r arloeswyr cyntaf ym 1865. Yn wir, hwyliodd ar fordaith o'r Pier Head, a ddathlodd ganmlwyddiant yr ymadawiad cyntaf - heb feddwl bryd hynny y byddai ryw ddiwrnod yn ymgymryd a'r union daith ei hunan. Mae wedi astudio'r Sbaeneg ers dyddiau ysgol, gan raddio mewn Ieithoedd Modern yng Nghaergrawnt ac ennill Doethuriaeth Prifysgol Cymru yn Sbaeneg tra'n fyfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd. Yma hefyd y cafodd gyfle i loywi ei Gymraeg - gan gynnal y sgwrs gyntaf iddo ei chofio yn Gymraeg ar fws a oedd yn teithio trwy strydoedd y Brifddinas.

Mae'r cyfuniad o'r Sbaeneg a'r Gymraeg yn golygu fod Patagonia yn atyniad digon naturiol felly ond yn ystod y blynydd-oedd diwethaf mae ei ddiddordeb yn hanes y capeli yno wedi tyfu. Mae cyfarfodydd gyda Miss Mair Davies, Cymraes a dreuliodd flynyddoedd maith bellach mewn gwaith Cristnogol yn Nyffryn Chubut, ymwelwyr o'r Wladfa, anogaethau ysgrythurol ac eglwysig, ynghyd a sawl amgylchiad personol, wedi dwys-hau yr elfen o arweiniad a galwad y mae Dr. Ellis wedi bod yn ymwybodol ohono.

"Hysbyseb Cymdeithas Cymry Ariannin", meddai, "oedd y sbardun yr oedd ei angen arnom i symud ymlaen mewn ffordd mwy penodol, ac ryn ni'n ddiolchgar iawn am hynny, ac am gynnig hael y Gymdeithas i gwrdd â'm costau teithio. Mae Angharad wedi dechrau mynd ati i ddysgu'r Sbaeneg, sydd erbyn hyn yn hanfodol os ydych chi'n mynd i aros yno am gyfnod. Deallaf fod y rhifau yn y cynulliadau yn amrywio, ac mai pobl hŷn yn arbennig, a'r rheini'n wasgaredig, sydd erbyn hyn â'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Gobeithiwn fod o wasanaeth iddyn nhw ac i eraill yn ystod y flwyddyn. Efallai bydd Dafydd yn medru'r Sbaeneg erbyn iddo ddechrau ym Mro Eirwg - yn sicr fydd dim llawer o Saesneg gydag e! Edrychwn ymlaen at flwyddyn anturus a bendithiol yn ymwybodol, gobeithio, o'n braint a'n cyfrifoldeb".



---

# Y blancedi

MERCHED Y WAWR

Mae Dolen Cymru, sef mudiad sydd yn gysylltiedig a gwlad fechan Lesotho, yn gofyn am help i anfon blancedi allan yno gan ei bod yn oer iawn ar adegau o'r flwyddyn a nifer o'r trigolion yn dioddef oherwydd hynny.

Os oes unrhywun a blancedi nad ydynt yn eu defnyddio bellach, hwyrach oherwydd y ffasiwn newydd o Duvets, mae croeso mawr i chi eu hanfon i'r achos teilwng hwn. Mae angen arian hefyd i brynu peiriannau nyddu a gwau i'r brodorion.

Mae WRVS yng Nghaerdydd yn barod i dderbyn y blancedi yn eu canolfan, a chan fod Merched y Wawr yn aelodau o'r mudiad hwn, gellwch ddod a'ch blancedi atom ni - mae apel i bob cangen gasglu cymaint ag sydd bosibl. Y cyfeiriad yw: Mrs. Rosemary Davies, 162A Manor Way, Yr Eglwysnewydd, unrhyw amser o'r dydd, ond teimla Mrs. Davies y byddai gystal i chi ffonio Caerdydd 626495 cyn galw rhag ofn i chi wneud siwrnai wag.

# Colofn Shân Emlyn



'Mae'n werth troi'n alltud ambell dro' petae ond i sylweddoli y gall 'Y Dinesydd' fynd yn ei flaen yn raenus ddifyr heb y Cadeirydd. Diolch i bawb fu'n ddygn baratoi'r ddau rifyn dwytha.

Cefais rifyn Tachwedd ar y stryd yn y Gaiman a chael blas garw ar ei ddarllen, felly hefyd, pawb a'i gwelodd, ac o hyn allan bydd raid postio pob rhifyn i Gwyn Rees, Plas y Coed Y Gaiman. Yno y bum yn aros tra yn Y Gaiman. Tŷ te yw Plas y Coed, sôn am gartre oddi cartre! Fe wnaed yn gwbwl glir fy mod i wneud fel y mynnwn - bath pryd y mynnwn, agor y cwpwrdd rhew a helpu fy hun i sudd oren neu afal; golchi fy nillad yn ôl y galw, eu hongian yn yr haul, dod yn ôl a ffendio bod Martha wedi smwddio'r cyfan.

Tŷ prysur iawn yw Plas y Coed - llond bysiau'n cyrraedd yn ddirybudd - Martha'n sgrealu a gweini clamp o de i bawb - bara a menyn cartre, teisen hufen, teisen ddu, teisen afal i enwi dim ond rhai o'r danteithion a minnau'n helpu pan fo'r prysurdeb ar ei eitha. Gofyn i Martha wedyn "Be arall ga'i wneud?" "Tra rydwi'n torri bara menyn - cana iddyn nhw"!

Nid gwyliau oedd hwn - ond profiad - cyfle i gydfyw ag Archentwyr, sy'n wyrthiol yn dal i siarad Cymraeg. Pentref tawel digyffro ydy'r Gaiman - a phentre Cymraeg iawn ond ichi fynd o dan wyneb y Gymdeithas. Llwyddais i siopa yn Gymraeg mewn pedair siop - yn Siop Onnen, Mercado Gales, siop groser - ac wrth ymlafnio efo rhyw hanner dwsin o eiriau Sbaeneg a migmas i brynu pâr o 'tights' - cael ateb mewn Cymraeg glân gloyw! Yn y Gaiman bu Cymanfa, Noson Lawen, Sosial, a chinio cyfeillion Ysgol y Camwy - ac arwyddair Cymraeg yr ysgol yn cael lle amlwg ar y llwyfan "Gorau Arf, Arf Dysg". Ie, yr ysgol a sefydlwyd gan Luned Morgan, ai nith Luned Gonzales yn brif-athrawes heddiw. Do, fe gefais groeso ar ei haelwyd hithau - treulio tair noson ym Mhlas y Graig, hen gartre Luned Morgan - gwrando ac ymdeimlo â'r tŷ gan geisio dal gafael ar sibrydion o'r gorffennol, a dychmygu fy hun yn sgwrsio a holi Luned Morgan ei hun.

Wn i ddim a yw hi'n bosib imi gyfleu naws y croeso a'r prof-iadau a gefais - mae geiriau mor annigonol. Credais i mi yn fy nhro roi croeso i bob Gwaldfawr a ddaeth yma ond o'i gymharu a'u croeso hwy, llug-oer oedd fy nghroeso i. Danfon ffrindiau i orsaf Caerdydd a'u gosod ar dren, neu fws Traws Cambria - byth eto! Na, roedd gen i awydd croesi'r pedwar can milltir o baith o Drelew i Gwm Hyfryd mewn car - a daeth Rini ac Elias yr holl ffordd i'm nôl! Trefnu picnic ar y ffordd (gyda llaw 'gwigwyr' yw enw'r Wladfa am bicnic), mynd oddi ar y briffordd i ymweld â Dyffryn y Merthyron lle mae cofgolofn Gymraeg mwya unig y byd, tawelwch ac ehangder y wlad yn ysgytiol, a meddwl mai Cymry Cymraeg sefydlodd y rhan yma o'r byd. Biti na fyddai dyfais ar gael i recordio'r lleisiau o'r gorffennol fu'n diasbedain yn y tawelwch mawr.

Bu raid bodloni ar recordio lleisiau'r presennol a byw ar eu hatgofion hwy o gledi'r Gwladfawyr - dim offer at eu galw, dim meddygon, dim un tŷ i groesawu'r fintai - dim dewis ond troi ati a gwneud brics o fwd a hesg, dibynnu ar lysiau i wella pob aflwydd a manteisio a chyfeillachu â'r Indiaid er mwyn concro'r elfennau. Mae hanes y cychwyn yn gyffrous, yn rhamantus ac yn gwbwl orchestol. Mi wn i nad "yw pawb yn gwirioni'r un fath", ond does dim posib sylweddoli maint y gwrhydri heb gael sefyll yn stond ar y paith di-ildio. I feddwl, fy mod i wedi teimlo mor ddiflas mewn chydig o fwd yn Abergwaun!



Cofgolofn Lewis Jones yn Nhrelew

Yn ystod y chwe wythnos ymwelais â 69 o gartrefi! Y croeso yn amal yn fy llorio'n llwyr. Sylweddolais yn fuan nad oedd wiw imi edmygu dim - neu mi r'own i'n ei gael yn anrheg. Mi roi ddwy enghraifft yn unig ichi. Cefais wahoddiad i swper at Gwili ac Edith Wyn yn Esquel. Wrth eistedd i lawr i swpera gweld jwg pinc mawr - a dweud "Wel mae hwnna wedi dwad o'r hen wlad, mae gen i gasgliad o'r gwydr yna, a mae o'n cynyddu yn 'i werth". Yn ddiweddarach yn yr wythnos Gwili ac Edith Wyn yn curo'r drws a bag papur yn llaw Edith Wyn - y ddau wedi bod yn trafod "O'r hen wlad y daeth y jwg Sian, (Sian mae nhw'n ddeud ac nid Shân) fydd 'na neb ar ôl yn dyddia' ni i'w werthfawrogi, 'ryda ni am iddo gael mynd yn ôl i'r hen wlad i gartre lle caiff o barch". Sut mae rhywun yn diolch ar achlysur fel yna? Mae'r jwg yn ôl, ac ar fy silff ben tân - ond ni fu Gwili ac Edith Wyn yng Nghymru; dyna brofiad fyddai cael eu croesawu yma.

Taith arall ar draws y paith i Comodoro Rivadavia, ardal yr olew a nepell o'r Malvinas. Gwyn Rees yn mynd a mi yno a'm gadael i aros efo cwpwl nad oeddwn erioed wedi'u gweld o'r blaen - Meinir ac Edgar Jones. Edgar yn ymddiheuro bod ei Gymraeg "yn stiff" ac yn holi am lyfr gramadeg Cymraeg; minnau'n ei sicrhau nad oedd o fymryn o angen llyfr o'r fath. Ymfalchiai ei fod yn pori yn Y Geiriadur Mawr bob dydd, ôl bodio mawr arno, ac wedi'i ailrwymo'n gywrain. Cael "asado" yn Comodoro- yn Neuadd Dewi Sant, yng nghwmni deugain o Archantwyr llon a chanu mawr drwy'r pnawn - baledi ac emynau Cymraeg. Meddwl i mi fy hun, chwedl John Roberts Williams - be feddylia'r Hen Wyddeles o Gymry ac Archentwyr yn canu'i hochor hi ac yn cwmnia yn y Gymraeg ddau can milltir o'r Malvinas? Gadael

Comodoro a dros frecwast Meinir yn dweud iddi gael ei henwi ar ôl chwedl a ddarllenodd ei thad a'i mam yn hen lyfr 'Cymru Fu' - chwedl 'Priodas yn Nant Gwytheyrn' a'r llyfr wedi'i lapio mewn papur yn anrheg imi. "Fedar yr un o'r wyrion ei ddarllen, ewch a fo efo chi"! Do, dwi'n credu imi ddysgu yn y chwe wythnos "draw" beth yw teimlo'n wylaidd. Edgar yn dod yn ôl o'i waith i ffarwelio â mi a dweud "Dwi'n gweld y'ch bod chi ag un droed yn y warthol". Y dyn oedd awydd cael llyfr gramadeg Cymraeg!

Nôl i Drelew at Glyn a May - cartre oddi cartre oddi hi yno hefyd. Roedd May yn eithriadol o brysur - fel Llywydd Pwyll-gor Dathlu Canmlwyddiant Trelew - ac yn ei sgil cefais rannu'r dathlu - torri cacen cymaint a bwrdd hir am hanner nos ar stryd Trelew, gweld arddangosfa o dân gwyllt, dawnsio ar y strydoedd, Cantata'r Can-mlwyddiant mewn theatr (a'r cynnwys i gyd yn drefniannau o emynau Cymraeg - a minnau'n nabod y rhelyw o'r côr). Uchafbwynt y dathlu oedd dadorchuddio cofgolofn i Lewis Jones, gan neb llai na'r Arlywydd Alfonsin - a May yn annerch y dorf. Cinio'r dathlu wedyn - naw cant yno, finna ynghanol Sbaenwyr - migmas eto - chwifio mreichiau a dweud 'Galesa' - a Sbaenwr bach yn troi atai a dweud 'Mochyn du sy' wedi marw'!

Profiad arall oedd beirniadu yn y Steddfod aeth ymlaen tan ddau o'r gloch y bore. Saith o gorau'n canu'r Haleliwia Corws yn cloi'r Steddfod a'r neuadd fawr yn llawn ac yn canu "O bydded i'r hen iaith barhau" cyn mynd adra.

Dihoeni y mae'r Gymraeg yno, ac anodd credu y bydd y Gymraeg yn ddim ond sŵn yn y gwynt ymhen rhyw ugain mlynedd. Eto, mae'r profiadau a gefais - a hynny - yn y Gymraeg - yn dal yn wyrthiol. Wyth mil o filltiroedd o Gymru. Wrth adael - pawb yn holi - "pryd dowch chi eto"? Yr unig ffordd y gallwn ddygymod â gadael cynifer o eneidiau hoff cytun oedd deud "Gynta medra i".

# ALAN MEREDITH

Dim ond am dair blynedd yr oeddwn i'n adnabod Alan Meredith. Mae'n siwr bod sawl un wedi ei adnabod o'n well na fi; wedi ei adnabod am fwy o amser na fi ac felly'n fwy cymwys i gyflwyno teyrnged iddo na fi. Ond efallai fy mod i'n cynrychioli sawl un y bu i Alan gyffwrdd a'u bywydau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd a does 'na ddim wedi fy ysgogi o'r blaen i roi pen ar bapur na chlywed am golli'r gŵr hynod hwn.

Cymydog oedd Alan i ni, ond wedyn, cymydog oedd Alan i bawb. Roedd o'n adnabod pawb, a hyd yn oed os nad oedd o wedi'ch cyfarfod o'r blaen, doedd hynny ddim yn ei rwystro rhag rhannu jôc, gwên neu sylw â chi, ac yn sydyn iawn roedd Alan Meredith yn rhan o'ch bywyd chi - dyna oedd ei ddawn fawr. Roedd ei garedigrwydd yn enwog a'i frwdfrydedd dros yr hyn oedd yn dda yn heintus. Roedd o'n ddyn a chanddo egwyddorion cryf, ond nid rhyw bregethu 'fi-fawr' oedd yn amlygu'r egwyddogion hynny ond gweithredoedd cadarnhaol. Gweithiodd yn ddiflino dros yr henoed, y bobl ifanc, y tlawd a'r di-fraint ac mi roedd o'n byw i'w annwyl Dreganna lle'i ganwyd a'i magwyd. Roedd o'n ffrind i bawb ond yn cow-towio i neb.

Athro oedd o yn Ysgol Fitzalan lle'r oedd o'n frenin, lle'r oedd y plant yn ei addoli, nid am ei fod yn ysgolhaig na'n eilwr o unrhyw fath ond am ei fod yn athro bendigedig ac yn bennaf oll yn fêt iddyn nhw. Os oedd 'na broblem, Mr. Meredith oedd yr un i'w datrys.

Roedd o'n Gymro da ac yn ddinesydd i'r carn. Dysgodd Gymraeg, anfonodd ei blant, Carys, Rhys, Dafydd ac Elen, i Ysgol Coedygof, ac yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd, roedd o ar ei draed o fore gwyn tan nos yn stiwardio, trefnu, lletya a diddannu a hynny heb ddisgwyl unrhyw glod na diolch personol. Un felly oedd Alan Meredith.

Cymydog, cyfaill, cymwynaswr, cymunedwr, Cristion - y cyfan hyn, ac wrth gydymdeimlo a'i wraig, Roberta, a'i bedwar plentyn, mae rhywun yn siwr o ofyn iddo'i hun - pam? Y cawr clên, bywiog, llawn ynni hwn, yn cael ei gymryd yn ddeugain a dwy oed - pam?

Ac eto, mae'r cyfan, os rhywbeth, yn cryfhau Ffydd rhywun. Achos, fedrai Alan Meredith ddim peidio byw - dim tra mae ôl ei gymeriad a'i waith ar gymaint o bethau; dim tra'i fod o'n rhan o fywydau cymaint o bobl. Roedd ganddo allu prin - y gallu i gyffwrdd.

CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS

Nos Lun, Tachwedd 3ydd, croesawyd Fforwm arbennig o wahoddedigion i'r Gymdeithas sef Ruth Parry 'Merched yn Bennaf'; Hywel Gwynfryn 'Helo Bobol' a Ray Gravelle o fyd y bel hirgron. Cadeiriwyd y Fforwm gan Ian Gwyn Hughes 'Byd y Bel'. Cafwyd noson hwyliog iawn a holl aelodau'r Gymdeithas yn dra diolchgar i'r panelwyr am eu presenoldeb a'u hynawsedd hyfryd naturiol. Diolchwyd yn ffurfiol iddynt gan Edryd Lloyd, y Cadeirydd, ac fe baratowyd disgled neu baned gan Bethan Lloyd a'r merched.

Croeso i bawb i ymuno â ni yn Eglwys Sant Pedr nos Lun, Rhagfyr 15fed i ganu carolau, am 7.30 p.m. Dewch am dro o'r ddinas i'r Fro - beth am ddod a'ch ffrindiau a'ch teuluoedd i ganu carolau yn y Gymraeg. Dewch 'da chi - cewch groeso mawr. Dewch i ganu ac i addoli yn Eglwys Sant Pedr.

## CROESO

Croeso i Gaerdydd i Cassie Thomas o Landre, Ceredigion. Mae Cassie newydd gychwyn ar ei gwaith fel Swyddog Cyswllt gyda Chenhadaeth Gartref Y Presbyteriaid yng Nghymru.

Fel mae'r enw yn awgrymu fe fydd yn mynd ati i gysylltu a'r llu o fyfyrwyr Cymraeg sy'n astudio yng ngholegau'r ddinas. Dyma ei swydd gyntaf ar ôl graddio mewn Athroniaeth yng Ngholeg Bangor. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd gan obeithio y bydd yn hapus dros ben yng Nghaerdydd.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Emyr Wyn a Siwan Jones. Priodwyd y ddau ar Dachwedd 8fed yn Eglwys Sant Joseff, Penarth a'r Esgob Mullins yn gweinyddu. Merch i Haydn a Mair Jones yw Siwan, ac Emyr yn fab i Mr. a Mrs. Roy Evans, Fforest, Pontarddulais. Mae'r ddau, wrth gwrs, yn adnabyddus ym myd darlledu. Dymunwn briodas dda iddyn nhw a phob hwyl a llwyddiant ar eu gwaith.

OEDFA'R DYSGWYR

Daeth profiad hapus iawn i ran aelodau'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg nos Sul, Tachwedd 23. Roedd yr eglwys wedi trefnu oedfa arbennig ar gyfer dysgwyr yr iaith, gan gynnwys te croeso taflenni pwrpasol, hyfforddiant yng ngeirfa'r emynau a'r bregeth, y gwasanaeth ei hunan, a phaned o de i gloi'r cyfarfod Roedd ymateb da i'r syniad, a phawb yn mwynhau'r cyfle i sgwrsio a gwrando. Pregethwyd gan y Dr. Phil Ellis, un o henuriaid yr eglwys.

Ymhlith y dysgwyr oedd rhai o Gymdeithas Tŷ'r Cymry, lle bu'r cwmni hwn yn cwrdd am saith mlynedd cyn iddyn nhw symud yn ddiweddar i Crofts St., Newport Rd., lle cynhaliwyd Oedfa'r Dysgwyr.

## Arddangosfeydd
### RHAGFYR

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
TY TURNER.

ROBERT HARRIS 1849-1919

12 Rhagfyr - 24 Ionawr

Ganwyd yr arlunydd Robert Harris yn Nhyn y Groes, Dyffryn Conwy, ond yn fuan ymfudodd y teulu i Ganada. Yno y datblygodd ei ddawn, ac yn ddyn ifanc fe'i etholwyd yn Llywydd cyntaf Acadami Frenhinol Canada. Rhai bras luniau o Gymru i'w gweld yn ogystal a'i ddarluniau yng Nghanada.
Catalog dwyieithog gan Llyr D. Gruffydd. Pris £3

Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS

GWEITHDY I BLANT

18 Rhagfyr - 9 Ionawr

Nifer o unedau dysgu a thaflenni gwaith ar gyfer gwahanol oedran. Rhai taflenni i'w cael yn y Gymraeg. Testunau yn cynnwys cloddio glo, mamaliaid, dinosoriaid, adar, ffosiliau, celf, archeoleg a chwaraeon.

CHAPTER, HEOL Y FARCHNAD, TREGANNA

Y PRIF ORIEL

DIREKTKONTAKT

22 Tachwedd - 20 Rhagfyr

Chwaer ddinas Caerdydd sef Stuttgart drwy lygaid arlunwyr cerflunwyr, ffotograffwyr a video.

YR AIL ORIEL

22 Tachwedd - 20 Rhagfyr

CHRISTINE KINSEY : taith Pererin mewn Paentio a Darlunio Artist yn cofnodi ei phrofiadau o'i phlentyndod yng Nghymru hyd at waith diweddar yng Nghaerdydd.

FFOTOGALLERY, HEOL SIARL

ARDDANGOSFA NADOLIG YR AELODAU

15 Rhagfyr - 20 Rhagfyr

ORIEL GERDDI HOWARD, GERDDI HOWARD (Rhan o'r Coleg Celf a Dylunio)

JAN GAGE

1 Rhagfyr - 19 Rhagfyr

Peintiadau ynglyn a'r artist a'i pherthynas a'r byd o'i chwmpas.

ORIEL, HEOL SIARL

R.S.V.P.

22 Tachwedd - 3 Ionawr

Dewisiad o waith artistiaid dewisiedig gan Jeremy Theophilus, Cyfarwyddwr Oriel Gelf Mostyn, Llandudno. Gwaith a naws y Nadolig.

NEUADD DEWI SANT

ARTHUR THOMPSON

24 Tachwedd - 20 Rhagfyr

Caerdydd a'r Cylch mewn olew a dyfrliwiau.

# Dymuna HTV Cymru
# NADOLIG LLAWEN
# i chi gyd.



Cofiwch ymuno â'r

# PARTI!


am 8.45pm ar noson Dydd Nadolig
ar S4C

gydag
Elinor Jones ac Arfon Haines Davies
Huw Chiswell, Caryl Parry Jones, Trebor Edwards,
Dyfan Roberts, Gari Williams, Dai Jones,
Rosalind a Myrddin, Sue Roderick, Sian Naiomi,
Dewi Pws a chriw Rhagor o Wynt, Dyfed Thomas a
Clive Roberts, ynghyd â Doris ac
Evelyn Haydon-Williams.

HTV CYMRU



# Y CROESAIR – Ap Lewsyn   RHIF 67



## Rhifyn Nadolig

Ar ymylon allanol y Croesair ceir pedair ymadrodd o 13 llythyren yr un, sydd i'w gweled yn Efengyl Luc, Pennod 11, Adnodau 8–18, (Yr Hen Gyfieithiad), sef hanes Y Bugeiliaid. Felly, ni roddir cliwiau pellach i 1 a 25 ar draws a 7 ac 8 i lawr. Cliwiau arferol sydd i weddill y croesair.

### Ar Draws

1. Gweler uchod (pum gair)
2. Y cyflog cywir? Am gam neu golled (7)
10. Rwy'n canlyn yn ffwndrus un a fyn ildio ar ôl colli deg (7)
11. Oriawr yr hen garolwyr (5)
12. Geiriau a froliwn a chymwyswn i wneud enw a gofir byth (9)
13. Gair allan o adnod 10 (Gweler uchod)
15. Prif-ddinas Penllyn (9)
17. Cynnig drachefn (6,3)
18. Pigau'r drain (5)
19. Dau gawr od, a rhyw fil rhyngddynt (9)
22. Yr un sy'n cyrraedd bellaf (5)
23. "Un -'- ----- arfog yw'r Cyrnol". (1'1,5)
24. Pentre yn Nyffryn Gwy ble cafodd Francis Kilvert brofiad cyfriniol. Aed berw i'w le (7)
25. Gweler uchod (tri gair)

### I Lawr

2. Tua diwedd y ganrif (3,3,3)
3. Gwreiddyn o ardd ffeiriad isel-eglwysig (5)
4. Dyfais Curwen (5)
5. Ymdrechwyd. (Yn erbyn, yn amlach na heb) (9)
6. Oenig prancus yn gwingo (5)
7. Gweler uchod (pedwar gair)
8. Gweler uchod (tri gair)
10. "Dy f'hendaid, llwyd-- -----" (Eifion Wyn) 2,5)
14. Offeryn cerdd addas i glown bach (9)
15. Gwersyllodd lluoedd Mr. Eliot yn drefnus, dros ben (7)
16. "Am nad oedd iddynt -- -- ------" (o'r un bennod a'r ymylon) (2,2,1,4)
20. Y mae hen do, neu hen fwced yn mynd - ---- (1,4)
21. Hen enw ar watwareg neu goegni (5)
22. Holed yn gyffrous am ystyr einioes dyn (5)

## DATRYSIAD CROESAIR RHIF 66

### Ar Draws

1. Tadcu; 4. Arwynebol; 9. Biswail; 10. Benthyca; 11. Rwden; 12. Chwech; 13. Dios; 15. Af am dro; 17. Difetha; 20. Ledled; 22. Ymwelaf; 25. Coffa; 26. Bala; 27. Dwsin; 29. Achosion; 30. Digon da; 31. Dadansodda; 32. Louis

### I Lawr

1. Tabernacl; 2. Disodla; 3. Ugain; 4. Amlochrog; 5. Wybren; 6. Nant; 7. Be ydi be; 8. Lwans; 14. Pitw; 16. Doeth; 18. Anfantais; 19. Rychandra; 21. Deffroad; 23. Losin Du; 24. Darnio; 25. Crand; 27.Degol; 28. Tiwn

## Cystadleuaeth Rhif 65

Yr enw a ddaeth allan o'r het oedd y Dr. Ben Thomas, Cyncoed. Llongyfarchiadau iddo.

## Cystadleuaeth Rhif 66

Derbyniwyd cynigion holl gywir oddi wrth - A.R.R. Abertawe; J.L., Ger-y-llyn; D. Gwyn Jones Yr Eglwysnewydd; R.T. Cyncoed a Dilys Gunstone, Cyncoed. Enw D. Gwyn Jones a ddaeth allan o'r het ac felly iddo ef yr aiff y tocyn llyfr y mis hwn.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mae'r ffordd o'ch blaen yn glir, ond rhaid wrth lawer o hunan ddisgyblaeth os am gael eich ffordd eich hun. Dysgwch ymddiried yn eich greddf, a thalu sylw i'w rybuddion.

TAURUS: Bydd eraill yn ceisio'ch gwthio y mis hwn, ond sefwch yn gadarn a dilyn eich trywydd eich hun. Daw cyfle i deithio ddiwedd y mis a chyfle i newid eich byd.

GEMINI: Bydd y ser yn eich helpu i droi pob peth er eich budd y mis hwn - a hen bryd hefyd! Bellach rhaid peidio gwrando ar bartneriaid a thorri eich rhych eich hun.

CANCER: Dyma'r mis i deithio! Bydd angen encilio arnoch er mwyn rhoi trefn ar fan broblemau fu'n eich poeni ers tro, a chewch weld wedyn rhai mor bitw ydyn nhw!

LEO: Mae eich sefyllfa'n glir bellach, a rhaid i eraill sylweddoli hynny. Bydd rhai pethau braidd yn ansicr o'ch cwmpas, ond mae'r nerth gennych i newid y sefyllfa er budd i chi.

VIRGO: Rhaid edrych ymlaen nawr ac anghofio'r gorffennol - a chynllunio o ddifri at y dyfodol. Fe aiff unrhyw anhawsterau fu'n eich poeni heibio a'ch gadael yn berson cryfach a hapusach.

LIBRA: Efallai bydd ambell i berthynas personol byth yr un fath eto. Daw pennod o'ch bywyd i ben. Rhaid ail ddechrau o'r newydd yn eich bywyd personol. Gofalwch nad oes neb yn y gwaith yn anelu cyllell at eich cefn!


SCORPIO: Ansicrwydd pobl eraill a fu'n gyfrifol yn aml am lawer anghydfod y buoch yn eu hwynebu'n ddiweddar. Fe fydd pethau'n gwella llawer o hyn ymlaen.


SAGITTARIUS: Anghofiwch y briwiau a gawsoch yn y gorffennol. Dylai pethau fod yn fwy clir y mis hwn yn y gwaith a'r cartref. Mae'n bryd ymddwyn yn fwy allblyg a phositif.

CAPRICORN: Rhaid penderfynu unwaith ac am byth i beidio a gadael i elfennau allanol ddylanwadu arnoch. Bydd gwersi'r mis hwn yn eich gwneud yn berson hapusach a mwy cyflawn.


AQUARIUS: Rydych yn barod bellach i chwyldroi'ch bywyd ac wfftio sicrwydd a'r bywyd cyfforddus. Rhaid trefnu'ch materion ariannol, ond wedi gwneud hynny byddwch yn barod i ddechrau bywyd newydd cyffrous.

PISCES: Peidiwch a gwthio neb nawr, amynedd piau hi tan y flwyddyn newydd. Efallai bydd rhaid i chi ddewis rhwng yr hen a'r newydd. Pam na wnewch chi synnu pawb trwy gymryd y llwybr newydd - fyddwch chi ddim ar eich colled!





中國的恐龍





# DINOSORIAID

## O CHINA

## 20 RHAGFYR 1986 – 10 EBRILL 1988

Y Prif Adeilad, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd
Ar agor: Mawrth – Sadwrn 10.00 – 5.00; Sul 2.30 – 5.00
Mynediad: oedolion £1.50; plant a phensiynwyr 80c

(Ar gau: 24-26 Rhagfyr a Dydd Calan)